

In Touch

GWANWYN 2019 | RHIFYN 97

**MWYNHAU'R
DATHLU YN
HIGHTOWN**

**ENILLWYR
EIN GWOBRAU
MAD**

**ADEILADU
GAN YSTYRIED
BYD NATUR**

Paratoi ar gyfer y Credyd Cynhwysol

Cyfathrebu yn Gymraeg Welsh Communications

Os ydych yn dymuno i ni ysgrifennu atoch yn Gymraeg, a fydddech gystal â rhoi gwybod i ni. Mae modd i chi wneud hyn trwy siarad â'ch Swyddog Tai neu ffonio ein Canolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid ar **0800 052 2526**.

If you would like us to write to you in Welsh please let us know. You can do this by speaking to your Housing Officer or by phoning our Customer Service Centre on **0800 052 2526**.

Cysylltwch â ni

Tai Wales & West, Tŷ'r Bwa, 77 Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd CF14 5DU

Ffôn: **0800 052 2526**

Testun: **07788 310420**

E-bost: **contactus@wwha.co.uk**

Gwefan: **www.wwha.co.uk**

Gallwch hefyd gysylltu ag aelodau o staff yn uniongyrchol drwy e-bost. Er enghraifft, **joe.bloggs@wwha.co.uk**

Ewch ati i gymdeithasu gyda Tai Wales & West



Facebook
facebook.com/
wwhousing



LinkedIn
linkedin.com/
company/wwha



Twitter
@wwha



Instagram
instagram.com/
wwhousing

leithoedd a fformatau eraill

Os hoffech gael copi o'r rhifyn hwn o In Touch yn Saesneg neu mewn iaith neu fformat arall - er enghraifft, print mawr, rhowch wybod i ni ac fe wnawn ni helpu.

CYNNWYS



- 4-5 Rhoi terfyn ar blastig
- 6-7 Pen-blwydd hapus Hightown
- 8 Buddsoddi mewn gofal ychwanegol
- 9 Helpwch ni i siapio ein cartrefi yn y dyfodol
- 10 Cartrefi newydd ar gyfer Y Barri, Caerdydd a Sir Benfro
- 16 Rhoi rhywbeth yn ôl i'r gymuned
- 18 Uchafbwyntiau ein Gwobrau Gwneud Gwahaniaeth
- 21 Gwybodaeth am y Credyd Cynhwysol
- 24 Help er mwyn dychwelyd i'r gwaith
- 27 Yr hyn i'w wneud os bydd dŵr yn gollwng
- 28 Eich straeon chi
- 30 Sut i drawsnewid esgidiau glaw yn ddysglau plannu
- 32 Posau i gael gwobr a beth sy'n digwydd
- 35 Diwrnod ym mywyd Swyddog Tai



CROESO GAN ANNE

Annwyl breswylwyr

Croeso i rifyn y Gwanwyn o In Touch, y cylchgrawn ar eich cyfer chi, ein preswylwyr.

Thema'r rhifyn hwn yw Rhoi Rhywbeth yn Ôl, ac mae ein Gwobrau Gwneud Gwahaniaeth yn crisialu'r thema hon yn berffaith. Unwaith eto eleni, buom yn dathlu cyflawniadau cymaint o'n preswylwyr sydd wedi bod yn rhoi rhywbeth yn ôl i'w cymunedau, boed hwnnw'n amser neu'n arian, neu wrth wirfoddoli a chodi arian.

Yn ogystal, byddwn yn ailymweld â'r sefydliadau niferus sydd wedi manteisio ar bron i £87,000 ar ffurf nawdd dros y 12 mis diwethaf. Mae'r rhain yn cynnwys ystod eang o weithgareddau cymunedol megis llochesau nos ar gyfer y digartref, diwrnodau hwyl i deuluoedd a chyfleoedd busnes a hyfforddiant er mwyn helpu ein preswylwyr.

Efallai eich bod wedi sylwi bod y deunydd y lapiwyd y rhifyn

hwn ynddo ac a bostiwyd atoch yn teimlo'n wahanol i'r hyn a ddefnyddiwyd ar gyfer rhifynnau blaenorol. Mae hyn oherwydd ein bod wedi ei gyfnwid am ddeunydd lapio sy'n fwy ecogyfeillgar ac a gynhyrchir gan ddefnyddio cynnyrch gwastraff eithaf anarferol. Cewch wybod beth ydyw yn nes ymlaen.

Dyma un o'r ffyrdd niferus yr ydym yn rhoi rhywbeth yn ôl i'r amgylchedd. Un arall yw'r ffordd y mae ein timau datblygu yn gweithio gyda'r amgylchedd ar ein cynlluniau adeiladu newydd er mwyn rhoi lle i fyd natur.

Yn ogystal, ceir y posau poblogaidd lle y gallwch ennill gwobrau, gweithgarwch crefft, coginio a syniadau garddio.

Mawr obeithiaf y byddwch yn mwynhau ei ddarllen.

Anne Hinchey
Prif Weithredwr Grŵp

Os oes gennych chi sylwadau am yr In Touch newydd neu sut gallwn ni wella, rhowch wybod i ni. Fe wnawn ni barhau i wrando arnoch chi. E-bostiwch contactus@wwha.co.uk neu siaradwch â'n Tîm Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu ar 0800 052 2526.

RHOI TERFYN AR

Pam y gellir rhoi deunydd lapio newydd In Touch

Mae gwastraff plastig yn broblem enfawr ar draws y byd felly rydym wedi penderfynu cymryd camau i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd.

Efallai eich bod wedi sylwi bod y deunydd lapio ar gyfer y rhifyn hwn o gylchgrawn In Touch yn wahanol. Mae hyn oherwydd ein bod wedi cyfnewid y bagiau postio plastig ailgylchadwy yr oeddem yn eu defnyddio yn flaenorol am rai newydd wedi'u gwneud o ffilm bioplastig.

Mae bioplastigau yn ddewis amgen i blastig ac fe'u cynhyrchir gan ddefnyddio adnoddau adnewyddadwy naturiol a chynaliadwy fel tatws yn hytrach nag olew crai. Mae defnyddio cynhyrchion tatws fel startsh tatws a gwastraff arall o'r diwydiant bwyd yn golygu bod y deunydd lapio yn hollol ecogyfeillgar ac mae modd ei gompostio. Gallwch ei roi allan gyda'ch gwastraff bwyd, eich compost gardd neu ym miniau

ailgylchu gwyrdd y cyngor, ac nid yw'n rhyddhau tocsinau niweidiol ychwaith.

Rydym wedi bod yn gweithio gydag Xpedient Print Services, cwmni argraffu o Gymru, er mwyn sicrhau'r bagiau newydd fel rhan o'n hymrwymiad i'r amgylchedd.

Un cam yw hwn yn ein hymrwymiad i leihau ein dibyniaeth ar blastig untro. Gall rhai plastigau gymryd blynnyddoedd i bydru. Yn ogystal, byddant yn dadelfennu ac yn creu darnau llai o faint o'r enw 'microblastigau', sy'n gallu halogi ein pridd a'n dyfrffyrdd a'n moroedd, gan ladd bywyd gwylt.

Dywedodd Anne Hinchey, Prif Weithredwr Grŵp Tai Wales & West: "Mae plastigau untro wedi datblygu i fod yn broblem enfawr i'r amgylchedd. Wrth i Fforwm Economaidd y Byd amcangyfrif bod tua 150 miliwn tonnell o blastig yn arnofio yn ein moroedd ar hyn o bryd, mae angen i ni gyd gymryd camau i newid.

"Mae rhai pobl o'r farn na fydd eu cyfraniad unigol nhw yn gwneud rhyw lawer o wahaniaeth, ond pe bai pob un ohonom yn gwneud un newid, fe allai."

"Mae sefydliadau ac elusennau cenedlaethol yn dechrau defnyddio bioplastigau er mwyn postio eu deunydd a chredwn mai ni yw'r gymdeithas tai gyntaf yng Nghymru i wneud y newid hwn fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i wneud gwahaniaeth i gynladwyedd ac i'r amgylchedd."

Yn ddiweddar, dyfarnwyd Lefel 2 Gwobr y Ddraig Werdd i Dai Wales & West am ei gwaith rheolaeth amgylcheddol.

Mae rhai o'n mentrau gwyrdd a gynhaliwyd yn ddiweddar yn cynnwys:

- Datblygiad tai newydd o 14 o gartrefi sy'n gallu cynhyrchu eu hynni eu hunain ym Mryn Bragl, Pen-y-bont ar Ogwr, a ariannir yn rhannol gan Raglen Tai Arloesol LIC.



BLASTIG

yn eich biniau compostio neu ailgylchu bwyd

- Defnyddio mwy o bren a dyfir yn y wlad hon yn ein cynlluniau, er enghraifft, mewn 11 o fflatiau newydd yn ein cynllun yn Llandrillo-yn-Rhos, Cwrt Rhys Fynach.
- Gosod paneli solar a mwy o ddeunydd inswleiddio yn ein cartrefi yn gyson, a gosod pypiau gwres ffynhonnell aer mewn nifer o'n cartrefi
- Buddsoddi £35 miliwn. dros y dair blynedd nesaf i uwchraddio ffenestri a drysau, adnewyddu boeleri a sicrhau bod ein cartrefi yn arbed mwy o ynni.



Pen-blwydd Hapus Hightown!

Trefnwyd diwrnod o ddigwyddiadau am ddim i blant a theuluoedd i ddathlu pum mlynedd ers agor y ganolfan yn Wrecsam, Gogledd Cymru. Roedd y gweithgareddau yn cynnwys paentio wyneb, adrodd straeon, karate a bingo, ynghyd â pherfformiadau gan Wrexham Singing Hands a chôr o'r ysgol gynradd leol, Ysgol Bodhyfryd.

Agorwyd y digwyddiad gan Brif Weithredwr Grŵp WWH, Anne Hinchey, ac roedd y sawl a fynychodd yn cynnwys Maer Wrecsam, Cynghorydd Andy Williams.

Dywedodd Annette Bryden, Rheolwr Canolfan Adnoddau Cymunedol Hightown: "Rydym yn hynod falch o'r rôl pwysig a gyflawnir gan y ganolfan yn y gymuned, ac roedd hi'n wych

gweld cymaint o bobl yn y digwyddiad.

"Roedd rhai grwpiau wedi bod gyda ni ers i'r ganolfan agor, a gwelwyd rhai defnyddwyr mwy newydd yn mynychu, a fu'n ddigon caredig i

drefnu arddangosiadau a gweithgareddau ar ein cyfer.

"Diolch i grŵp Cyfeillion Canolfan Adnoddau Cymunedol Hightown, a weithiodd yn ddiflino i gynnal digwyddiad mor arbennig a fydd yn aros yn y cof am gyfnod



Gallwch ddarganfod mwy am y gweithgareddau yn y ganolfan ar Facebook, <https://www.facebook.com/hightownrc/>



Ymunwch ag ymgyrch Gwanwyn Glân Cymru

Mae Cadwch Gymru'n Daclus wedi lansio ymgyrch a fydd yn para mis er mwyn annog pawb i fynd ati i lanhau'r amgylchedd ar eu stepen drws.

Y nod yw ysbrydoli miloedd o bobl i ddod ynghyd i gasglu a gwaredu sbwriel oddi ar strydoedd, parciau a thraethau mewn ffordd ddiogel, gan ailgylchu cymaint ohono ag y bo modd.

Nid yn unig y mae sbwriel yn difetha prydfwerthwch naturiol ein hamgylchedd, ond mae'n bygwth bywyd gwyllt yn y môr ac ar y tir

hefyd. Cofnododd RSPCA dros 7,000 achos o anifeiliaid yn cael eu hanafu oherwydd ysbwriel y llynedd, ac rydym yn gwybod bod 80% o'r sbwriel sy'n cyrraedd y môr yn cychwyn ei daith ar y tir.

Cynhelir y 'glanhau mawr' tan 23 Ebrill. I gael gwybod sut y gallwch chi gymryd rhan, trwy ymuno â gweithgarwch glanhau yn eich ardal chi neu drefnu eich gweithgarwch glanhau eich hun, trowch at www.keepwalestidy.cymru/pages/category/spring-clean-cymru



hir."

Adeiladwyd y ganolfan bum mlynedd yn ôl ar yr un pryd ag yr adeiladwyd cannoedd o gartrefi newydd a chanolfan feddygol newydd fel rhan o ymdrech i adfywio ardal Hightown yn Wrecsam, a gostiodd sawl miliwn.

Dywedodd AS Wrecsam, Ian Lucas: "Mae'r croeso cynnes, nifer syfrdanol y gweithgareddau i bobl o bob oed, nifer yr asiantaethau sy'n cydweithio mor dda a'r gofal a ddangosir tuag at yr adeilad hyfryd hwn yn rhai o'r ffyrdd y bydd pobl sy'n byw yn lleol yn teimlo eu bod wirioneddol yn rhan o gymuned gref iawn. Llongyfarchiadau ar y bum mlynedd gyntaf a boed i'r ganolfan barhau."


Negeseuon testun i atgoffa – gwella ein gwasanaeth i chi

Byddwn yn cychwyn gwasanaeth anfon negeseuon testun atgoffa am eich apwyntiadau gwaith trwsio gyda Gwasanaethau Cynnal a Chadw Cambria. Pan wneir apwyntiad, byddwch yn cael neges destun a fydd yn nodi manylion yr apwyntiad, yna byddwch yn cael neges bellach i'ch atgoffa 24 awr cyn hynny.

Sicrhewch bod gennym eich rhif ffôn diweddaraf fel y gallwch gael gwybod am eich apwyntiadau gwaith trwsio gyda Gwasanaethau Cynnal a Chadw Cambria. Os nad oes gennych chi ffôn

symudol, peidiwch gofidio – trefnir eich apwyntiad gyda chi yn y ffordd arferol gyda'n tîm trwsio dros y ffôn, gwasanaeth atgoffa ychwanegol yw hwn.

Dyma enghraifft o'r ffordd y bydd y testun yn edrych:



Buddsoddi mewn Gofal

Plas yr Ywen fydd enw cynllun gofal ychwanegol newydd WWH sy'n cael ei adeiladu yn Nhreffynnon ar hyn o bryd.

Bydd y cyfleuster yn agor yn ystod y Gwanwyn 2020 a hwn fydd ein hail gynllun o'r fath yn Sir y Fflint, Gogledd Cymru, law yn llaw â Llys Jasmine yn Yr Wyddgrug.

Ysbrydolwyd yr enw ar gyfer y cynllun a fydd yn cynnwys 55 o fflatiau gan goeden Ywen a ddiogelwyd ar safle y cynllun newydd.

Mae WWH yn darparu'r cyfleuster newydd mewn partneriaeth â Chyngor Sir y Fflint ac Anwyl Construction.

Datgelwyd yr enw newydd wrth i aelodau Cyngor Sir y Fflint ymweld â'r safle yn Ffordd Halkyn yn y dref er mwyn gweld cynnydd y gwaith adeiladu.

Dywedodd Anne Hinchey, Prif Weithredwr Grŵp Tai Wales & West: "Rydym wrth ein bodd o weld pa mor gyflym y mae'r gwaith wedi mynd rhagddo ar

y cynllun, ac edrychwn ymlaen yn eiddgar i weld y preswylwyr cyntaf yn symud i mewn yn gynnar flwyddyn nesaf.

"Rydym yr un mor falch o'r ffaith y bydd y datblygiad newydd pwysig hwn i Sir y Fflint yn cynnig budd i economi Gogledd Cymru, gydag Anwyl Construction fel y contractwyr arweiniol.

"Bydd nifer y lleoedd byw gofal ychwanegol a ddarparir gan Dai Wales & West yn y sir bron yn dyblu pan fydd Plas yr Ywen yn agor, gan helpu i fodloni'r galw cynyddol am y math hwn o lety yn y sir."

Dywedodd Aelod Cabinet Cyngor Sir y Fflint dros Wasanaethau Cymdeithasol, Cyngorydd Christine Jones: "Mae hwn yn gam ymlaen gwych arall i'n cynllun gofal ychwanegol diweddaraf yn Sir y Fflint. Wrth i'r Cyngor a Thai Wales & West weithio mewn partneriaeth, rydym oll yn edrych ymlaen i weld y cynllun hwn yn dwyn ffrwyth.



Y gwaith yn cychwyn ar gynllun gofal ychwanegol Aberystwyth

Mae'r gwaith wedi cychwyn hefyd i glirio safle sy'n edrych allan dros harbwr Aberystwyth er mwyn adeiladu cynllun gofal ychwanegol newydd arall.

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi rhoi caniatâd cynllunio llawn i'r cynllun gofal ychwanegol a fydd yn cynnig 56 gwely ar safle Plas Morolwg i'r de o ganol y dref.

Y gobaith yw y bydd y gwaith adeiladu yn cychwyn ddiwedd fis Ebrill, os caiff y contractau eu cwblhau, a disgwylir i'r preswylwyr cyntaf symud i mewn yn gynnar yn 2021.

Adeiladir y cynllun gofal ychwanegol dros dri a phedwar llawr a bydd yn cynnwys 56 o fflatiau annibynnol un a dwy ystafell wely, a bydd gwasanaeth gofal a chymorth 24 awr ar gael ar y safle i oedolion y bydd angen gwasanaeth o'r fath arnynt.

Dywedodd Rheolwr Datblygu Tai Wales & West, Gareth Thomas: "Mae hwn yn gyfnod cyffrous i ni fod yn gweithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir Ceredigion a Llywodraeth Cymru er mwyn dwyn y cynllun gofal ychwanegol hwn i Aberystwyth.

"Heb os, mae galw yn ardal gogledd Ceredigion am ofal a thai ar gyfer pobl hŷn ac agored i niwed dan un to.

"Mae'r gwaith cynllunio wedi bod yn mynd rhagddo ers cryn dipyn, ond rydym yn edrych ymlaen i weithio gyda'r gymuned er mwyn dwyn tai gofal ychwanegol modern ac y mae angen dybryd amdanynt i'r dref, y gall pobl leol deimlo'n falch ohonynt."

Dangoswyd y cynlluniau i gynghorwyr a phreswylwyr lleol am y tro cyntaf yn ystod digwyddiad ymgynghori a gynhaliwyd ym Mhenparcau fis Ebrill y llynedd.

Ychwanegol



“ Bydd Plas yr Ywen yn darparu cyfleusterau rhagorol er mwyn gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau preswylwyr. ”



Siapio ein cartrefi ar gyfer y dyfodol, gan gadw'r preswylwyr mewn cof

Rydym yn adolygu'r ffordd yr ydym yn dylunio ein cartrefi ar gyfer pobl hŷn, a hoffem glywed gan y bobl sy'n gwybod orau – y preswylwyr sy'n byw yn ein cynlluniau.

Rydym yn bwriadu cysylltu â rhai o'n preswylwyr sy'n byw yn rhai o'n cynlluniau ar gyfer y rhai dros 55 oed er mwyn gofyn am adborth am ddyluniad ein cynlluniau.

Beth sy'n gweithio i chi yn eich cartref? Pa welliannau y gallem eu cynnwys mewn cynlluniau newydd yn eich barn chi, y gallent gynnig budd i breswylwyr eraill?

Beth sy'n bwysig i chi? A ydych chi'n defnyddio'r lleoedd parcio yn eich cynllun? A fyddai gardd mwy o faint yn fwy defnyddiol i bobl hŷn? A ydych chi'n hoffi sychu eich dillad ar leiniau dillad cymunol? A fyddai rhandiroedd neu welyau uwch o gymorth?

Dyma rai o'r cwestiynau yr ydym yn dymuno eu gofyn.

Rydym yn bwriadu ysgrifennu at neu ffonio detholiad ar hap o breswylwyr sy'n byw yn ein cynlluniau ar gyfer y rhai dros 55 oed er mwyn gofyn a hoffech gymryd rhan. Os byddwch yn cael eich gwahodd ac os byddwch yn cytuno cymryd rhan, bydd aelod o'n tîm datblygu yn trefnu ymweld â chi yn eich cartref i drafod eich barn am ddyluniad eich cartref gyda chi mewn mwy o fanylder.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda chi.



Darparu cartrefi newydd yn Y Barri

Mae'r gwaith ar fin cychwyn yn ystod yr haf eleni ar gynllun a fydd yn dwyn 72 o fflatiau i'w rhentu yn nhref glan môr Y Barri.

Mae WWH yn gweithio gyda phartneriaid datblygu Grŵp Jehu i adeiladu dau floc o fflatiau un a dwy ystafell wely yn Ffordd Subway. Disgwylir i'r datblygiad, a fydd yn cynnwys dau floc pedwar a phump llawr, gael ei gwblhau ymhen dwy flynedd.

Bydd y cynllun, a gymeradwywyd gan Gyngor Bro Morgannwg, yn adfywio rhan o'r dref ar ddarn o dir sy'n cael ei werthu gan Awdurdod Porthladdoedd Prydain.

Mae'r Barri yn dref boblogaidd ymhlith twristiaid ac mae'n adnabyddus am ei ffair ac am y

ffaith y lleolwyd cyfres gomedi deledu Gavin & Stacey yno, ond er hyn, ceir angen mawr am gartrefi fforddiadwy. Mae'n cynnwys un o'r marchnadoedd tai sy'n tyfu gyflymaf. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae prisiau tai wedi codi'n gyflymach yma nag y gwnaethant mewn unrhyw ardal arall yn y DU. Mae tua 400 o deuluoedd ac unigolion yn aros am lety fforddiadwy addas ar restr Aros Homes4U y Cyngor ar hyn o bryd, ac amcangyfrifir bod angen i 576 o dai fforddiadwy newydd gael eu hadeiladu yn y dref bob blwyddyn.

Mae'r safle newydd yn agos i ddatblygiad Glannau'r Barri, lle y mae WWH yn rheoli sawl uned yn natblygiad preifat dros

2,000 o gartrefi a adeiladwyd gan ddatblygwyr preifat Taylor Wimpey, Barratt a Persimmon.

Dywedodd Rheolwr Adeiladu Tai Wales & West, Grant Prosser: "Rydym yn edrych ymlaen i weithio mewn partneriaeth gyda Grŵp Jehu ar y datblygiad hwn, a mawr obeithiwn y bydd yn helpu i leihau'r angen am dai yn y dref."

"Mae hwn yn gyfle gwych i ailddatblygu'r safle amlwg hwn, gan helpu i leddfu'r prinder tai rhent fforddiadwy yn yr ardal."

Ar ôl eu cwblhau, caiff y tai eu gosod i bobl sydd ar restr Homes4U Cyngor Bro Morgannwg yn yr ardal ar hyn o bryd.

Cartrefi WWH newydd ar gyfer Rhiwabon

Mae'r gwaith ar fin cychwyn ar res o gartrefi newydd WWH yn Rhiwabon ar ôl dymchwel triawd o gartrefi yr oeddent wedi cael eu hanner adeiladu.

Roedd yr eiddo wedi bod yn wag er 2004 ac yn ddolur llygad, a byddant yn cael eu disodli gan gartrefi fforddiadwy ar gyfer y pentref nawr, ar gyrion Wrecsam.

Dywedodd Rheolwr Adeiladu WWH, Matt Hall: "Rydym wrth ein bodd bod y gwaith wedi cychwyn ar safle y datblygiad bach hwn o'r diwedd, a fydd yn darparu tri

chartref fforddiadwy ac o ansawdd uchel sy'n arbed ynni i deuluoedd yn ardal Rhiwabon.

"Bydd y cartrefi ymhlith y rhai cyntaf y bydd Brenig Construction yn eu hadeiladu ar ein cyfer, un o'n partneriaid adeiladu newydd yng Ngogledd Cymru, wrth i ni gynyddu ein rhaglen adeiladu tai ar draws y rhanbarth."

Croesawyd y cartrefi gan Gyngorydd Wrecsam, David Griffiths, aelod arweiniol dros dai.

Dywedodd: "Mae hwn yn ddatblygiad cyffrous iawn mewn

partneriaeth hir rhyngom ni, Tai Wales & West, Llywodraeth Cymru a Chyngor Cymuned Rhiwabon, a hoffwn ddiolch i bawb a fu'n gysylltiedig â'r datblygiad hwn am eu cydweithrediad."

Dywedodd Cyngorydd Rhiwabon, Dana Davies: "Rydym i'n hynod o falch bod y gwaith dymchwel yn digwydd o'r diwedd, ac rydw i'n obeithiol y bydd teuluoedd yn gallu symud i mewn i'r tri eiddo newydd erbyn diwedd y flwyddyn."

Adeiladu cartrefi o ansawdd

Mae sicrhau y caiff cartrefi o safon uchel eu cwblhau yn parhau i fod yn faes yr ydym yn canolbwyntio arno, yn enwedig cartrefi a ddarparir gan gwmnïau adeiladu mawrion trwy'r broses gynllunio. Rydym yn dymuno gweld cartrefi sy'n rhydd rhag diffygion pan fydd preswylwyr newydd yn symud i mewn, ac weithiau, bydd hyn yn arwain at oedi wrth eu trosglwyddo.

Rydym yn canolbwyntio ar ddyluniad ein cartrefi newydd hefyd, ac rydym yn awyddus i gael mwy o adborth gan breswylwyr newydd am y cynllun mewnol, gosodiadau a ffitiadau, ynghyd ag unrhyw beth, os o gwbl, y byddent yn dymuno iddo fod yn wahanol.



Cychwynnwyd ar 101 o gartrefi newydd yn ystod chwarter olaf 2018



Cwblhawyd 41 o gartrefi newydd hefyd

AR Y GWEILL

De Cymru

Pen-y-bont ar Ogwr:

Cymeradwywyd cynlluniau ar gyfer 10 o fflatiau yn nhref glan môr Porthcawl. Bydd ein partneriaid datblygu newydd, P+P Builders, yn cychwyn ar y safle yn nes ymlaen eleni.

Gorllewin Cymru

Sir Benfro: Mae'r gwaith newydd gychwyn i ddwyn 14 o gartrefi newydd i safle maes glas yn nhref glan môr Trefdraeth. Adeiladir y datblygiad o 6 o fflatiau un ystafell wely, 7 o dai dwy a thair ystafell wely a byngalo un ystafell wely ar dir oddi ar Feidr Eglwys.

Bydd Morgan Construction yn gwneud y gwaith adeiladu, a gaiff ei gwblhau yn gynnar flwyddyn nesaf.

Gogledd Cymru

Sir y Fflint: Rydym wedi cyflwyno cynlluniau i adeiladu 6 o gartrefi newydd ar safle hen eglwys mewn pentref yng Ngogledd Cymru.

Rhoddwyd caniatâd i ddimchwel yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig yn Llaneurgain ac rydym wedi cyflwyno cynlluniau i Gyngor Sir y Fflint i'w disodli gyda 4 tŷ a 2 fflat. Os derbynnir y rhain, bydd yr eiddo newydd yn darparu cartrefi fforddiadwy y mae cryn angen amdanynt yn yr ardal.

Yn ogystal yn Sir y Fflint, rydym wedi gwneud cais am ganiatâd i adeiladu **23 o gartrefi newydd fforddiadwy yn lle gwesty gwag yn Yr Wyddgrug.**

Mae Gwesty Bryn Awel wedi



Gwesty Bryn Awel

bod yn wag ers iddo gau yn 2011 a phrynwyd y safle gan WWH y llynedd. Mae gennym gynlluniau am dai fforddiadwy ar ffurf fflatiau rhent cymdeithasol un a dwy ystafell wely.

Rhoddwyd cymeradwyaeth i ddimchwel y gwesty ym mis Ionawr.



Dilynwch ni ar Instagram i weld rhagor o luniau o'n datblygiadau newydd: [instagram.com/wwhousing](https://www.instagram.com/wwhousing)

A ydych chi'n dymuno symud i gartref mynediad hawdd yng Nghaerdydd?



Nod ein cynllun newydd yng Nghlos Pentland, Llanisien, Caerdydd, a fydd yn costio £10 miliwn, yw creu 82 o gartrefi newydd i bobl y mae gofyn iddynt gael llety mynediad hawdd.

Bydd Clos Pentland yn dwyn cartrefi newydd modern i un o faestrefi preswyl mwyaf poblogaidd Caerdydd, Llanisien. Bydd y rhain ar gyfer pobl dros 55 oed yn bennaf, a'r rhai sydd ag anghenion hygrychedd, ac fe'u dyluniwyd i greu

cymuned agos o fflatiau a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol.

Enillodd ein cynllun wobwr dylunio yng Ngwobrau Tai Cymru yn ddiweddar.

Mae WWH yn gweithio gyda Chartrefi Hygyrch Caerdydd i greu cartrefi er mwyn bodloni anghenion pobl sydd wedi bod yn aros am gyfnod hir am gartrefi o'r fath. Bydd y cartrefi yn rhai fforddiadwy i'w rhentu ac yn rhai hygrych i bobl sydd

â phroblemau symudedd.

Rydym yn cael cyngor dylunio gan sefydliadau arbenigol gan gynnwys Cymdeithas Alzheimer ac RNIB.

Mae'r cynllun yn cynnwys 16 o fflatiau llawr daear ar ffurf pum bloc, ac mae pob fflat yn cynnwys drysau llydanach ac ystafelloedd gwlyb ynghyd â chegin, lle bwyta ac ystafell fyw agored eang. Bydd lifft sy'n cyrraedd pob llawr hefyd a phwyntiau gwefru a storio sgwteri symudedd ar y llawr daear.

Mae'r gwaith adeiladu yn mynd rhagddo yn dda a nod y contractwyr, Hale Construction, yw cwblhau'r cynllun yn barod er mwyn i'r preswylwyr cyntaf allu symud i mewn yn gynnar flwyddyn nesaf.

Dywedodd Rheolwr Tai WWH, Chris Walton: "Bydd y cartrefi yr ydym yn eu hadeiladu yng Nghlos Pentland yn rhai modern, cynnes a deniadol i breswylwyr. Mae tua 2000 o bobl dros 50 oed ar restr aros am dai Cyngor Caerdydd ac y maent yn dymuno cael llety hygrych yn ystafell wely."

"Ar ôl cwblhau'r datblygiad hwn, mawr obeithiwn y bydd yn rhyddhau nifer o gartrefi teuluol cymdeithasol mwy o faint trwy alluogi i bobl sengl a chyplau hyn

"Peidiwch colli cyfle, cofrestrwch nawr!"

Anogir pobl leol yn Nhrefdraeth i wneud cais am gartrefi newydd yn Iard y Parrog



Mae Tai Wales & West yn gweithio gyda Chyngor Sir Penfro i gynnig cartrefi newydd y gall pobl leol fforddio eu rhentu yn nhref glan môr boblogaidd Trefdraeth.

Mae WWH wedi contractio'r

cwmni o Hwlfordd, WB Griffiths, i adeiladu wyth o gartrefi newydd yn Iard Y Parrog ar ôl prynu hen safle Iard y Parrog gan Gyngor Tref Trefdraeth. Bydd y datblygiad yn costio £1 miliwn.

Ar ôl i'r datblygiad gael ei gwblhau yn nes ymlaen yn ystod yr haf eleni, caiff y tai dwy ystafell wely a'r fflatiau un a dwy ystafell wely eu neilltuo trwy gyfrwng cynllun gosod lleol Cartrefi Dewisedig Sir Benfro i deuluoedd ac unigolion lleol mewn angen.

Mae Trefdraeth yn boblogaidd

ymlith twristiaid a pherchnogion ail gartrefi ac mae pris eiddo yn y dref yn uwch na'r prisiau cenedlaethol cyfartalog, gan olygu eu bod y tu hwnt i gyrraedd pobl leol, ac mae hyn yn ei gwneud yn anodd i'r bobl hyn fforddio byw yn y man lle y'u ganwyd a'u magwyd.

Yn ôl Zoopla, y wefan eiddo, mae tŷ neu fflat dwy ystafell wely yn y dref yn costio £238,328 ar gyfartaledd ac mae cartref pâr yn costio £287,760.

Dywedodd Rheolwr Tai WWH, Glenda Bowen: "Mae cryn angen am y cartrefi hyn yn Nhrefdraeth. Bu'n rhaid i bobl o'r dref symud allan o'r ardal lle y cawsant eu magu gan na allant fforddio byw

sy'n tan-feddiannu cartrefi teuluol mwy o faint ar hyn o bryd, i symud i gartrefi modern newydd a fydd yn diwallu eu hanghenion wrth iddynt fynd yn hŷn".

Bydd y datblygiad o flociau pedwar a phum llawr yn creu cymuned o 82 o fflatiau un a dwy ystafell wely, y byddant yn cynnwys ardaloedd cymdeithasol a balconïau cymunol lle y gall preswylwyr gyfarfod a gwneud ffrindiau. Ceir lleoedd parcio oddi ar y ffordd hefyd.

Mae Llanisien yn faestref boblogaidd yng Nghaerdydd, sy'n cynnwys cymuned fywiog o siopau, cyfleusterau hamdden, cyfleoedd cyfogaeth a gwasanaethau cymorth. Ceir safle bws a gorsaf drenau ar y stepen drws, sy'n cynnig cysylltiadau rheolaidd â chanol y ddinas a chymunedau cyfagos, gyda'r nod o annog preswylwyr i ddefnyddio llai o'u ceir.

Cynigir fflatiau ar y llawr daear i ymgeiswyr ar gofrestr Cartrefi Hygyrch Caerdydd a bydd y broses o lunio rhestr fer yn cychwyn yn ystod yr haf eleni ar gyfer fflatiau llawr cyntaf ac uwch eu pen. Gall unrhyw un sydd â diddordeb mewn symud i Glos Pentland, Llanisien, wneud cais i'r Gofrestr Tai Cyffredin.

Gall preswylwyr Tai Wales & West ofyn am ffurflen gais drosglwyddo i ymuno â'r gofrestr trwy gysylltu â'n Tîm Dewisiadau Tai ar 0800 052 2526.

yno mwyach. Rydym yn dymuno sicrhau bod pobl yn cael y cyfle i fagu eu teuluoedd yn y man lle y maent yn perthyn, gan dalu rhent y gallant ei fforddio.


"Rydym yn gweithio gyda'r awdurdod lleol a Chyngor Tref Trefdraeth i sicrhau bod y cartrefi newydd yn lard Y Parrog yn cael eu neilltuo i'r bobl leol hyn y mae angen tai arnynt."

Dylai unrhyw un sydd â diddordeb mewn symud i lard Y Parrog gofrestru eu diddordeb gyda Chartrefi Dewisiedig Sir Benfro.

I gofrestru, trowch at www.choicehomespembrokeshire.org Am wybodaeth bellach, trowch at wefan WWH, wwha.co.uk/parrog/ Newport neu ffonio 01239 712 013.

Gwranddo ar yr hyn y mae preswylwyr yn eu ddymuno

Mae nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru yn adolygu eu Cofrestrau Cyffredin. Rydym yn bartner gweithredol ym mhob un o'r rhain, ac rydym yn sicrhau ein bod yn gwranddo ar yr hyn sy'n bwysig mewn cartref newydd yn eich barn chi, megis y lleoliad cywir, er mwyn helpu i adolygu'r cofrestrau hyn.



55% o'r **cartrefi a oedd ar gael yn gywir y tro cyntaf** i breswylwyr



I fyny
6%
o'i gymharu â'r
sefyllfa y llynedd



Oedd y **cyfnod cyfartalog** yr oedd hi wedi cymryd i **osod eiddo gwag**

10

yn llai nag
ar yr adeg
hon y llynedd



Dywedoch chi

Byddwn i wedi hoffi
pe bai fy nghartref
newydd yn lanach

Dywedoch chi

Rydw i'n hoffi
lleoliad fy
eiddo



Gwneud lle

i fyd

Faint o dir y DU yr adeiladwyd arno? Os byddwch yn holi'r rhan fwyaf o bobl, mae'n siŵr y byddent yn dweud tua hanner neu un rhan o dair.

Fodd bynnag, mae'r cyfanswm go iawn yn llawer llai, a dim ond 7% o dir y DU yr adeiladwyd arno – ffaith a amlygwyd mewn ymgyrch a gynhaliwyd yn ddiweddar gan sefydliad amgylcheddol Cyfeillion y Ddaear.

Mae Cyfeillion y Ddaear yn ymgyrchu i wneud mwy o le ym mhob man ar gyfer byd natur, gan ddwyn natur yn fyw mewn pentrefi, trefi a dinasoedd, a lle'r ydych yn byw, yn dysgu ac yn gweithio.

Fel rhan o'r ymgyrch, rhyddhaodd fideo arbennig o'r enw 'Y DU mewn 100 eiliad', gyda phob eiliad o'r ffilm yn cyfleu 1% o'r ffordd y mae'r wlad yn ymddangos o'r awyr.

Pump eiliad yn unig sy'n mynd ar daith trwy gartrefi a gerddi, a'r gyfran fwyaf yw coetir, cnydau a thir pori.

Mae niferoedd dros hanner rhywogaethau gwylt y DU yn lleihau ac mae 1 o bob 10 ohonynt mewn perygl o ddiflannu, ac mae'r ffilm yn gofyn a oes modd i ni wneud mwy o le ar gyfer byd natur?

Dywedodd Shayne Hembrow,

Dirprwy Brif Weithredwr Grŵp WWH: "Mae hyn yn cynnig persbectif o'r ffordd y mae Prydain yn edrych mewn gwirionedd, gan gynnig teimlad go iawn o gymesuredd, sy'n bwysig pan ydym yn bwriadu adeiladu rhagor o gartrefi fforddiadwy y mae cryn angen amdanynt."

"Er ein bod yn cyflawni ein rôl wrth helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei haddewid i ddarparu 20,000 o gartrefi fforddiadwy newydd, mae diogelu a gwneud lle ar gyfer bywyd gwylt yn bwysig i ni hefyd. Rydym yn ystyried ffyrdd y gallwn wneud mwy o le i fyd natur ym mhob man, gan gynnwys yn ein cartrefi a'n datblygiadau newydd."


Buom yn gweithio gydag arbenigwyr ym maes ecoleg a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i ailddatblygu safle hen fferm yng Nghoety, gan

ddiogelu rhywogaeth frodorol yr ystlumod sydd eisoes yn byw ar y safle. Gyda thystiolaeth bod ystlumod yn clwydo yn nho'r hen adeilad fferm gwag, buom yn gweithio gyda chadwraethwyr natur i adeiladu "tŷ ystlumod" newydd ar y safle, a fyddai'n caniatáu i'r ystlumod symud i mewn cyn i'r gwaith dymchwel gychwyn.

Yn Rhiwabon, comisiynom arolwg ystlumod a chawsom gyngor gan ecolegwyr cyn bwrw ymlaen gyda chynlluniau i ailddatblygu hen safle Garej Victoria.

Yn Llanbedr, Powys, rydym yn cefnogi'r gwaith o greu gardd natur a rhandiroedd wrth ymyl cartrefi newydd yng Nghlos St Peter. Mae'r cyngor cymuned yn gweithio gyda'r gymuned ac ysgolion lleol i greu man lle y gall natur a phobl leol fyw ochr yn ochr.

natur



Trwy gyfrwng ein grantiau Gwneud Gwahaniaeth, rydym wedi cynorthwyo preswylwyr ar draws Cymru i greu eu gerddi cymunedol eu hunain hefyd, gan dyfu llysiau, ffrwythau a blodau er mwyn denu pryfed ac adar.

Bob blwyddyn, byddwn yn dathlu'r cyflawniadau hyn yng nghategori Mynd yn Wyrdd yn ein Gwobrau Gwneud Gwahaniaeth

blynyddol.

Eleni, enillodd Kathryn Burnand o Brestatyn y wobr am greu gardd gymunedol y mae hi'n ei rhannu gyda'i chymdogion, yn ogystal â thoreth o fywyd gwylt, gan gynnwys moch daear, gwiwerod, gloynnod byw a gwenyn.

Ychwanegodd Shayne: "Nid yn unig y mae bod allan yn yr awyr agored a garddio yn annog bywyd

gwylt, ond mae'n helpu i wella iechyd meddwl a lles pobl.

Pam na fydech chi'n dymuno gwneud lle i fyd natur ar eich stepen drws?"

I wyllo'r ffilm lawn, 'Y DU mewn 100 eiliad', trowch at <https://friendsoftheearth.uk/nature/space-nature-uk-100-seconds>

Rhoi rhywbeth yn ôl i'r gymuned

Bob blwyddyn, mae Tai Wales & West yn cefnogi prosiectau ar lawr gwlad sy'n gwneud gwahaniaeth i'n preswylwyr.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rhannodd dros 50 o sefydliadau ac unigolion yng Nghymru gronfa ariannol gan Dai Wales & West a oedd yn werth bron i £87,000 yn 2018.

Roedd timau chwaraeon, digwyddiadau cymunedol, prosiectau tai a digartrefedd, addysg a theuluoedd, elusennau a'r celfyddydau a cherddoriaeth yn rhai o fuddiolwyr y cyllid trwy gyfrwng ein rhaglen nawdd Gwneud Gwahaniaeth.

Cefnogom brosiectau tai megis Boomerang Caerdydd, elusen sydd wedi ymrwymo i gynorthwyo'r digartref a threchu tloidi, Lloches Nos Wrecsam, TPAS Cymru a Cymorth Cymru.

Yn ogystal, cefnogom 17 o brosiectau neu dimau chwaraeon ar draws Cymru, gan helpu i dalu am ddillad ymarfer neu ddillad ar gyfer gemau, neu gyllid er mwyn helpu i gynnal twrnameintiau.

Rydym wedi cefnogi prosiectau cymunedol gan gynnwys grwpiau garddio yng Nghlos Langford, Wrecsam; Cyfarthfa ym Merthyr; Tŷ Dewi yn y Rhondda a Chwrt Buxton yn Y Rhyl.

Mae prosiectau addysgol i bobl ifanc wedi cael budd hefyd. Er enghraifft, helpom i ariannu cwrs creu fideos proffesiynol yn Nhwyncarmel, Merthyr, ynghyd

â phrosiect diogelwch ar y rhyngwyd gyda Heddlu Gogledd Cymru yn Nant y Môr, Prestatyn. Yn ogystal, cafodd preswylwyr help i fod yn entrepreneuriaid a rhedeg eu busnes eu hunain ar ffurf nawdd ar gyfer ysgol fusnes Dros Dro.

Roedd prosiectau cymunedol llai a gafodd fudd yn cynnwys carnifalau cymunedol, digwyddiad i droi goleuadau Nadolig ymlaen a gŵyl flodau.

Mae rhai o'r sefydliadau a'r digwyddiadau a noddom dros y 12 mis diwethaf yn cynnwys:

Gogledd Cymru

- **Lloches Nos Wrecsam** – talwyd am 12 o welyau gwerysyla a dillad gwely ar gyfer Lloches Nos newydd mewn eglwysi yn Wrecsam a sefydlwyd gan Housing Justice Cymru, gyda chefnogaeth Esgobaeth Llanelwy.
- **FOCUS Cymru 2019** – cefnogwyd y rhaglen wirfoddoli ar gyfer yr ŵyl gerddorol a chelfyddydol ryngwladol hon yn Wrecsam er mwyn creu cyfleoedd newydd i'n preswylwyr a'r gymuned ehangach gael cyswllt â'r digwyddiad.
- **Prosiect Ieuenctid Penarlâg** – cyllid rhannol ar gyfer chwaraeon yn ystod yr haf

a fynychwyd gan dros 100 o blant ac a gynhaliwyd gan Aura Leisure a Heddlu Gogledd Cymru er mwyn lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal.

De Cymru

- **Eisteddfod Yr Urdd Caerdydd a'r Fro 2019** – defnyddir £3,000 ar ffurf cyllid Gwneud Gwahaniaeth er mwyn cefnogi'r Cynllun Croesawu yn yr Eisteddfod ieuenctid flynyddol yng Nghaerdydd yn ystod yr haf eleni.
- **Cymdeithas Fowls Rhydycar, Merthyr Tudful** – unwaith eto, byddwn yn noddi cwpan her WWH.
- Cafodd **Canton Rangers, Caerdydd** nawdd er mwyn prynu topiau hyfforddi ar gyfer eu tîm iau.

Gorllewin Cymru

- **Yr Hwb ym Mhenparcau, Aberystwyth** – roedd ein nawdd o £2,000 wedi talu am ganolfan TG newydd er mwyn helpu preswylwyr yn Aberystwyth i fynd ar-lein. Mae Fforwm Cymunedol Penparcau wedi prynu tri gliniadur, peiriant argraffu a meddalwedd.

- **Pencampwriaeth Genedlaethol Tynnu Rhaff Cymru** – heidiodd dros 2000 o bobl i dref glan môr Aberaeron am y digwyddiad hwn ym mis Gorffennaf 2018, a ariannwyd trwy gyfrwng nawdd arweiniol a roddwyd gan Dai Wales & West.
- **Lleoedd chwarae yn Aberteifi** – darparom werth £4000 ar ffurf cyllid cyfatebol i brynu offer mewn lle chwarae newydd rhwng Golwg y Castell ac Awel yr Afon. Mae nifer

fawr o deuluoedd ifanc yn byw ar y ddau ystad ac mae'r lle chwarae wedi datblygu i fod yn gyfleuster cymunedol pwysig.

- Ym mharc **Drefach Felindre**, noddom gynllun chwarae yn ystod yr haf



Pencampwriaethau Tynnu Rhaff Cenedlaethol Cymru



Canton Rangers, Caerdydd

Lle chwarae yn Aberteifi





TANISHA THOMAS



IAN STOKER

arwain ymgyrch un dyn i gael gwared ar sbwriel a baw cŵn o strydoedd a mannau prydfarth ei dref. Mae'n treulio hyd at naw awr y dydd yn casglu'r swm anferthol o wyth cilogram o faw cŵn yr wythnos ar gyfartaledd, ynghyd â bagiau niferus o sbwriel.



ROGER NICHOLAS

Enillydd Gwobr Cychwyn Ffres oedd **Roger Nicholas** o Faesteg ger Pen-y-bont ar Ogwr, tad-cu a chyn löwr a ddaeth i'r brig am ei benderfyniad wrth roi'r gorau i fod yn gaeth i alcohol, rhywbeth a oedd wedi effeithio ar ei fywyd ef ac ar fywyd ei deulu ers dros 40 mlynedd.



NEIL BUFFTON

Enwyd **Neil Buffton**, preswlydd ifanc yng nghynllun gofal ychwanegol Llys Glan Yr Afon yn Y Drenewydd, Powys, yn Hyrwyddwr Lles am oresgyn rhwystrau personol a gwneud bywyd gwell ar gyfer ei gymdogion trwy sefydlu cangen newydd o elusen Sied y Dynion a'u hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau.

Rhoi rhywbeth yn ôl i'w cymunedau

- y preswylwyr sy'n gwneud gwahaniaeth

Cydnabuwyd preswylwyr sydd wedi ymroi i roi rhywbeth yn ôl i'w cymunedau yng Ngwobrau Gwneud Gwahaniaeth blynyddol 2019 Tai Wales & West.

Hwn oedd yr unfed tro ar ddeg i ni gynnal y gwobrau, ac maent yn agored i'r 22,000 o breswylwyr sy'n byw yn eiddo Tai Wales & West ar draws Cymru, gan ddathlu cymdogion da, arwyr lleol, prosiectau amgylcheddol a chymunedol a'r rhai sydd wedi gwneud newidiadau ysbrydoledig ac ysgogol i'w bywydau.

Ymhlith yr enillwyr oedd pencampwraig ifanc sy'n rasio beiciau modur, a frwydrodd yn erbyn diagnosis canser a newidiodd ei bywyd, a phensiynwr sydd wedi bod yn gwella cymuned yng Ngogledd Cymru ers 20 mlynedd.

Enillodd y bencampwraig Genedlaethol yng nghamp Motocrós, Tanisha Thomas o Aberteifi, a John Williams o Barracksfield, Wrecsam, Wobr Cyflawniad Eithriadol.

Cyflwynwyd y wobr i Tanisha, 24 oed, am y ffordd ysbrydoledig a frwydrodd yn galed i ddysgu cerdded unwaith eto ac adennill ei theitl fel y Bencampwraig Motocrós Genedlaethol dair blynedd ar ôl i feddygon ddarganfod tiwmor canseraidd ar ei hasgwrn cefn.

Enillodd John y wobr am neilltuo'r 20 mlynedd ddiwethaf i wneud gwahaniaeth i fywydau teuluoedd ar ystad Barracksfield yn Wrecsam, yn ogystal â phreswylwyr tai cymdeithasol ar draws Cymru.

Roedd yr enillwyr eraill yn y seremoni a gynhaliwyd yng Ngwesty Vale, Hensol, ger Caerdydd, fel a ganlyn:



IRIS EVANS

Cyhoeddwyd mai'r hyrwyddwr codi arian oedd **Iris Evans** o Wrecsam, cyn nyrs. Roedd hi wedi bod yn gwirfoddoli ac yn codi arian ar gyfer Gwasanaeth Gwirfoddol Ysbyty Maelor Wrecsam ers 21 o flynyddoedd ac ar ôl ymddeol, dechreuodd wau er mwyn codi arian ar gyfer elusennau canser, gwasanaeth cymorth SANDS ar gyfer rhieni sy'n dioddef profedigaeth a phreswylwyr cartref gofal Parc Pendine.



KATHRYN BURNAND

Enillodd **Kathryn Burnand** Wobr Mynd yn Wyrdd am drawsnewid darn o dir a oedd wedi tyfu'n wyllt ger ei chartref ym Mhrestatyn yn ardd gymunol. Mae Kathryn wedi trefnu barbiciws i bawb sy'n byw yng nghyffiniau'r cynllun ac mae'n rhannu'r ffrwythau a'r llysiau dros ben a dyfir yn yr ardd.



WENDY BLEWETT

Enillydd Gwobr Cymydog Da oedd **Wendy Blewett**, am wneud gwahaniaeth i'w chymdogion yng nghynllun ymddeol Cwrt Oldwell yng Nghaerdydd. Mae hi'n pobi ac yn dosbarthu cacennau ac anrhegion pen-blwydd ac ar achlysuron arbennig. Mae hi'n trefnu digwyddiadau codi arian ac elusennol.

Dywedodd Rhys Gibson o'r prif noddwyr, Gibson Specialist Technical Services: "Rydym wedi noddi'r digwyddiad ers sawl blynedd a bob blwyddyn, mae'n anrhydedd i mi helpu i ddathlu cyflawniadau cymaint o breswylwyr anhygoel Tai Wales & West.

Dywedodd Anne Hinchey, Prif Weithredwr Grŵp Tai Wales & West: "Roedd cymaint o enillwyr ac unigolion haeddiannol a gyrhaeddodd y rownd derfynol yng ngwobrau eleni. Roedd hi'n agoriad llygad ac yn brofiad ysbrydoledig clywed eu straeon am y ffordd y maent wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau ac i'w cymunedau."

Bydd yr arian a godir yn ystod y digwyddiad yn cael ei drosglwyddo i gynllun grantiau Gwneud Gwahaniaeth Tai Wales & West, sy'n helpu i gychwyn prosiectau cymunedol ac amgylcheddol a chyfluoedd hyfforddiant a chyflogaeth i breswylwyr.



Uchod: Preswylwyr yn dathlu yn Seremoni Gwobrau Gwneud Gwahaniaeth 2019

Y SAWL A GYRHAEDDODD Y ROWND DERFYNOL YNG NGWOBRAU MAD 2019

Hyrwyddwr Lles, noddwyd gan Hale Construction

Enillydd: Neil Buffton, Llys Glan Yr Afon, Y Drenewydd
Wedi cyrraedd y rownd derfynol: Kate Hancock, Llys Owen, Aberteifi; Grŵp Garddio Cymunedol ac Adfywio o Drelái, Caerdydd; Joyce Brown, Nant Y Môr, Prestatyn

Cymydog Da, noddwyd gan Jamson Estates

Enillydd: Wendy Blewett o Gwrt Oldwell, Caerdydd
Wedi cyrraedd y rownd derfynol: Sarah Wilson o Queensferry; Reg Baulch o Laneirwg, Caerdydd a Pat Rogers o Gwrt Limebourne, Caerdydd

Cychwyn Ffres, noddwyd gan Lee Poole & Sons

Enillydd: Roger Nicholas, Pen-y-bont ar Ogwr
Wedi cyrraedd y rownd derfynol: Elaine Mayhew, Y Rhyl; Jackson Gray ac Amey Parker, Aberystwyth

Mynd yn Wyrdd, noddwyd gan Contour Showers

Enillydd: Kathryn Burnand, Prestatyn
Wedi cyrraedd y rownd derfynol: Ali Cocks, Aberystwyth; Kathleen Simpson a Graham Jones, Cwrt Hanover, Llandudno; Iorwerth Jones o Lys Hafren

Arwyr Cymunedol, noddwyd gan PMD

Enillydd: Ian Stoker, Aberteifi
Wedi cyrraedd y rownd derfynol: Grŵp Unity o Gaerau, Caerdydd; Tommy Guest, Y Fflint; Christine Foulkes a Val Evans, Cwrt St Clements, Caerdydd

Hyrwyddwr Codi Arian, noddwyd gan MACP

Enillydd: Iris Evans, Wrecsam
Wedi cyrraedd y rownd derfynol: Vera Piper, Cwrt Western, Caerdydd; Steve Derrett, Cwrt Oakmeadow, Caerdydd; Agnes Prosser, Gerddi Ffynnon, Aberystwyth

Cyflawniad Eithriadol, noddwyd gan CJS Electrical

Enillwyr: Tanisha Thomas, Aberteifi; John Williams, Wrecsam

Roedd noddwyr Gwobrau MAD 2019 yn cynnwys:

Gibson STS, Jamson Estates Ltd, Lee Poole and Sons, Contour Showers, PMD, Hale Construction Ltd, CJS Electrical, MACP, Ian Williams Ltd & Dulux, Thermal Earth, Jehu, J&P Windows Ltd, Anwyl, EWIS, Independence Solutions, Snowdonia, P+P Builders, Days Rental, Preseli Home Improvements Ltd, WCS environmental and building maintenance; Polyflor; 1st Communications; Xpedient Print; Envirovent; Symphony; Brenig; Seddon Construction Ltd; Stelrad; Vaillant; CR Creative; Inhouse Manager; Aico; Thorlux; M&K Pest Control; Physical Adaptation Solutions; Castlemead; Vale Resort; Village Hotel.

Gwybodaeth am y Credyd Cynhwysol

Yr hyn y mae angen i chi ei wybod am y broses o gyflwyno'r Credyd Cynhwysol

Mae'r llywodraeth yn bwriadu dechrau trosglwyddo detholiad o bobl o gredydau treth neu fudd-daliadau presennol i'r Credyd Cynhwysol o fis Gorffennaf 2019. Enw'r broses hon yw **ymfudo a reolir** ac mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cyhoeddi y trosglwyddir tua 10,000 o bobl yn 2019 fel rhan o gynllun peilot. Os nad ydych ymhlith y 10,000 cyntaf o bobl a ddewiswyd (a bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau, DWP, yn cysylltu â chi os ydych yn un o'r rhain), ni fyddwch yn trosglwyddo i'r Credyd Cynhwysol nes y caiff y cynllun peilot ei gwblhau a'i asesu.





Premiwm Anabledd Difrifol (SDP) a'r Credyd Cynhwysol

Os ydych yn cael SDP fel rhan o unrhyw fudd-dal yr ydych yn ei hawlio ar hyn o bryd, ni fyddwch yn cael eich symud i'r CC nes bydd y broses ymfudo a reolir yn digwydd.



Cyfyngiad Dau Blentyn y Credyd Cynhwysol

Gan gychwyn ar 1 Chwefror 2019, ni fydd teuluoedd sy'n cynnwys mwy na dau o blant ac y maent yn gwneud hawliadau newydd am y Credyd Cynhwysol yn cael eu cyfeirio i hawlio budd-daliadau etifeddol mwyach, ond byddant yn gallu hawlio'r Credyd Cynhwysol. Gweithredir cyfyngiad o ddau o blant ar deuluoedd y dyfarnwyd y Credyd Cynhwysol iddynt ar ôl mis Ebrill 2017 ac y mae ganddynt ddau o blant neu

lai, ond y maent wedi mynd ymlaen i gael trydydd plentyn neu fwy..



Lwfans Gwaith y Credyd Cynhwysol yn Cynyddu

Lwfansau gwaith yw swm eich enillion gan gyflogaeth y mae gennych yr hawl i'w cadw cyn y caiff ei ystyried fel incwm ar gyfer y Credyd Cynhwysol. Bydd y rhain yn codi £1000 ar gyfer y flwyddyn, sy'n golygu y bydd pobl sy'n gweithio ac y mae ganddynt blant neu allu cyfyngedig i weithio (neu y mae gallu eu partner i weithio yn gyfyngedig), yn cael budd o hyd at £630 y flwyddyn.

Fodd bynnag, os ydych yn weithiwr heb blant neu os na aseswyd bod eich gallu chi neu'ch partner i wneud gwaith yn gyfyngedig, ni fyddwch yn cael help ar ffurf lwfansau gwaith o hyd.

Codiad i'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol

Bydd y Cyflog Byw Cenedlaethol (ar gyfer y rhai dros 25 oed) yn codi 4.9% o £7.83 yr awr i £8.21 yr awr ym mis Ebrill 2019. Bydd yr Isafswm

Cyflog Cenedlaethol yn codi o £7.38 yr awr i £7.70 yr awr ar gyfer pobl 21 i 24 oed; ac o £5.90 yr awr i £6.15 yr awr ar gyfer pobl 18 i 20 oed. Gellir gweld mwy o wybodaeth am yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol ar wefan Gov.uk.



Credyd Cynhwysol a Chyplau o Oedran Cymysg

O 15 Mai, ni fydd cyplau lle y mae un partner yn hŷn na'r oedran Credyd Pensiwn ac mae'r llall yn iau na'r oedran Credyd Pensiwn, yn gallu gwneud cais newydd am y Credyd Pensiwn mwyach. Yn hytrach, bydd yn rhaid iddynt hawlio'r Credyd Cynhwysol. Gall cyplau oedran cymysg sy'n cael y Credyd Pensiwn barhau i gael y Credyd Pensiwn ar yr amod eu bod yn parhau i fodloni amodau cymhwyso eraill y Credyd Pensiwn.

Mae Turn2us yn elusen genedlaethol sy'n cynnig help ymarferol i bobl sy'n wynebu trafferthion ariannol. Trowch at eu gwefan sef www.turn2us.org.uk



Beth yw'r Credyd Cynhwysol (CC)?

Mae'r Credyd Cynhwysol yn fudd-dal newydd sy'n cyfuno budd-daliadau lluosog o fewn un taliad misol. Bydd unrhyw un dan 65 oed sy'n hawlio'r Lwfans Ceisio Gwaith, y Cymhorthdal Incwm, y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, y Budd-dal Tai a/neu Gredydau Treth ar hyn o bryd, yn cael eu symud i'r system newydd hon yn y pen draw.

Pryd fydd hyn yn effeithio arnaf i?

Ar hyn o bryd, mae'n cael ei gyflwyno ym mhob rhan o Gymru a chyn bo hir, bydd unrhyw un sy'n gwneud hawliad newydd am y budd-daliadau a restrir uchod yn gwneud cais am CC yn lle hynny.

A ydw i'n gallu gwneud unrhyw beth i baratoi?

- **Mynd ar-lein** - Caiff ceisiadau am CC eu gwneud a'u rheoli ar-lein. Os nad ydych yn defnyddio'r rhyngwrdd ar hyn o bryd, dechreuwch feddwl am ffyrdd y gallech fanteisio arno, er enghraifft, mae nifer o lyfrgelloedd neu adeiladau'r Cyngor yn cynnig cyrsiau i ddechreuwyd er mwyn dangos yr hanfodion i chi. Yn ogystal â pharatoi ar gyfer CC, mae hyn yn

cynnig dewisiadau niferus i arbed arian hefyd, o ddefnyddio gwefannau cymharu i fonitro'r defnydd o ynni a biliau.

- **Cyllidebu misol** - Telir CC bob mis, a allai fod yn wahanol i'r ffordd yr ydych yn cael eich incwm ar hyn o bryd. Felly, mae'n bwysig sicrhau bod eich cyllideb yn iach fel bod y cyfnod pontio hwn yn haws na phe byddech yn ei chael hi'n anodd sicrhau cydbwysedd rhwng eich incwm a'ch gwariant nawr. Er nad ydych ar fin dechrau cael CC efallai, nawr yw'r amser i weithredu gan nad yw hi'n hawdd rhoi trefn ar eich sefyllfa ariannol. Mae'n gwefan yn cynnig llawer o gyngor ynghylch rheoli eich arian ac mae'n amlygu gwefannau sy'n cynnig gwybodaeth bellach hefyd.


- **Cael cyfrif banc** — efallai eich bod

Cymorth i breswylwyr sy'n ei chael hi'n anodd



Rydym wedi cydnabod mai preswylwyr sydd ag incymau amrywiol, fel y rhai sy'n gwneud gwaith rhan-amser, pobl hunangyflogedig neu'r rhai ar gontractau dim oriau, yw'r rhai sy'n aml yn ei chael hi'n anodd cadw at gynllun talu rheolaidd.

Rydym yn parhau i wella ein systemau er mwyn ein helpu i adnabod achosion pan fydd rhywun yn dechrau cael anhawster, gan ganiatáu i ni gynnig help a chyngor mor gyflym ag y bo modd.



Yn ystod chwarter olaf 2018, roedd nifer gyfartalog o

5,282 o breswylwyr

wedi ymrwmo i dalu eu rhent trwy drefniant Debyd Uniongyrchol

A wyddoch chi?

Gallwch ofyn am wneud trefniant Debyd Uniongyrchol ar ein gwefan newydd www.wwha.co.uk



yn defnyddio cyfrif swyddfa bost ar hyn o bryd, sy'n caniatáu i chi dynnu eich arian allan neu efallai eich bod yn gorfod talu taliadau banc ar gyfer y cyfrif yr ydych yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Os felly, nawr yw'r amser i agor cyfrif banc newydd er mwyn eich galluogi i reoli eich arian mewn ffordd mor gyfleus ac effeithiol ag y bo modd. Bydd hyn yn caniatáu i chi dalu eich biliau fel rhent a threth gyngor trwy drefniant Debyd Uniongyrchol, sy'n golygu na fydd yn rhaid i chi gofio talu neu ymweld â siop neu Swyddfa Bost.

Beth fydd yn digwydd os byddaf yn ei hawlio?

Ar ôl i chi gwblhau eich hawliad ar-lein, cynigir taliad ymlaen llaw i chi er mwyn eich helpu i ymdopi yn ystod y cyfnod o bum wythnos cyn y bydd eich CC yn

cychwyn. Bydd y blaen-daliad hwn yn cynnwys eich lwfans safonol (e.e. yr hyn a fyddai wedi cyfateb â'ch Lwfans Ceisio Gwaith, eich Cymhorthdal incwm neu'ch Lwfans Cyflogaeth a Chymorth) a hefyd, swm tuag at eich rhent. Os byddwch yn cymryd y blaen-daliad llawn, mae'n bwysig eich bod yn cysylltu â ni ynghylch talu taliad rhent. Yna, caiff y lwfans hwn ei adfer trwy eich taliadau CC parhaus dros y 12 mis nesaf er mwyn sicrhau y gallwch fyw ar y swm is hwn dros y cyfnod hwnnw.

Yn ogystal, gofynnir i chi fynychu apwyntiad yn y Ganolfan waith i ddarparu dogfennau adnabod a thrafod eich ymrwymiad fel hawlydd. Bydd eich ymrwymiad fel hawlydd yn cynnwys cael trafodaeth gyda hyfforddwr gwaith a hwn yw'ch cofnod chi o'r cyfrifoldebau yr ydych wedi eu derbyn yn gyfnewid am gael y Credyd

Cynhwysol, a chanlyniadau peidio eu bodloni (sancsiwn yn y pen draw).

Pryd fyddaf yn cael fy nhaliad cyntaf?

Byddwch yn cael eich taliad cyntaf tua 5 wythnos ar ôl i chi wneud eich hawliad ar-lein.

Ble fyddaf yn gallu cael help?

Os ydych yn cael anhawster gydag unrhyw agwedd ar eich hawliad am CC, ffoniwch eich Swyddog Tai. Byddant yn gallu eich cyngori ynghylch sut i ddatrys y mater neu'ch cyfeirio at un o'n Swyddogion Cymorth Tenantiaeth os bydd angen cymorth arnoch.

A ydych chi'n dymuno

gweithio

– ond heb fod yn hollol barod?...mae help ar gael

Mae nifer fawr o asiantaethau sy'n gallu eich helpu i wella'ch siawns o gael swydd. Ond nid yw hi'n hawdd darganfod pwy yw'r rhain, yr hyn y maent yn ei wneud a sut i gysylltu â nhw. Dyma pam ein bod wedi cysylltu â nifer o asiantaethau sy'n gweithio ar draws Cymru, ac asiantaethau lleol, er mwyn eich helpu chi.

Gofynnem i dair gwahanol asiantaeth cymorth cyflogaeth sy'n gweithio gydag amrywiaeth eang o bobl ar draws Cymru, i ddweud wrthym sut y gallant eich helpu chi.

Remploy

Putting ability first

Pwy ydym ni

Rydym yn helpu i gynorthwyo pobl anabl a'r rhai sydd â chyflwr iechyd i gael gwaith.

Yr hyn a wnawn

Rydym yn darparu amrediad o raglenni a gwasanaethau.

Yr help y gallwn ei gynnig

Y Rhaglen Gwaith ac Iechyd, cymorth cyflogaeth cymunedol ac wedi'i deilwra ar gyfer pobl sydd ag anabledd neu gyflwr iechyd, a'r rhai sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir.

- Mae Rhaglen

Gwaith ac Iechyd Cymru yn cynnig hyd at 21 mis o gymorth gan weithiwr allweddol Remploy, cyn sicrhau cyflogaeth ac yn y gweithle

- Y cyfle i fanteisio ar ystod eang o gymorth lleol, gan gynnwys gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, rhaglenni sgiliau, arbenigwyr ym maes caethiwed i gyffuriau ac alcohol, a chyngor a chwmsela.
- Gwasanaeth Cyflogaeth Arbenigol – rydym yn cyfateb hyfforddwy'r arbenigol gyda phobl sy'n wynebu rhwystrau lluosog a chymhleth i gyflogaeth, y mae angen mwy o gymorth arnynt, sy'n para hyd at 12 mis.

Gall yr hyfforddwr gynorthwyo'r cwsmer yn uniongyrchol i sicrhau cyflogaeth neu hysbysu eu Hyfforddwr Gwaith JCP o'r camau nesaf a argymhellir ar eu cyfer.

- Cymorth a Lleoliad Unigol (IPS) ar gyfer pobl sydd â chyflyrau iechyd meddwl difrifol, gan gynnig cymorth dwys i unigolion a chwilio am swyddi, a ddilynir gan leoliad cyflogaeth â thâl, a chymorth yn y gwaith.

Y sawl yr ydym yn eu helpu

Roedd Rita yn dioddef gofid difrifol, iselder a phyliau o banig ac nid oedd wedi gweithio ers 18 mis, ac roedd hyn wedi bod yn ergyd i'w

hyder. Roedd Rita yn weinyddwr profiadol, a bu ei chynghorydd yn gweithio gydag asiantaethau partner er mwyn ei helpu hi gyda'i hiechyd a'i lles trwy gyfrwng cyfres o weithdai a chymorth ar-lein 24 awr. Wrth iddi ddod yn fwy hyderus, llwyddodd Rita i weithio gyda cholegau lleol, a fu o gymorth iddi trwy ei helpu i chwilio am swyddi ar-lein ac ymgeisio amdanynt. Sawl cyfweiliad yn ddiweddarach, roedd Rita wrth ei bodd o gael cynnig swydd gyda chwmni lleol fel derbynydd / gweinyddwr.

Manylion cyswllt

Gwefan: www.remploy.co.uk
Ffôn: 0300 456 8110 8am – 8pm dydd Llun i ddydd Gwener, 9am – 5pm dydd Sadwrn a dydd Sul





Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth Parents, Childcare and Employment

Pwy ydym ni

Ariannir PaCE (cynllun Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth) gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF). Rydym yn helpu i wella rhagolygon rhieni o sicrhau cyflogaeth, sef y rhai y mae gofal plant yn cynrychioli'r brif rwystr iddynt wrth fanteisio ar gyfleoedd hyfforddiant neu swydd. Bydd PaCE yn talu am ofal plant tra bod rhieni yn cael hyfforddiant, profiad gwaith neu'n gwirfoddoli ac yn sicrhau'r sgiliau y mae eu hangen arnynt er mwyn cael swydd.

Yr hyn a wnawn

Mae cynghorwyr PaCE yn cynorthwyo rhieni sy'n dymuno ymgysylltu â'r prosiect yn wirfoddol, gan weithio tuag at gyflawni nodau realistig a chyraeddadwy. Maent yn helpu i wella sgiliau, delio â lefelau hyder/hunanbarch isel, a symud rhieni yn agosach at gyflogaeth gynaliadwy. Mae PaCE yn cynnig cymorth un i un i reini cymwys er mwyn pennu eu hanghenion gofal plant a'u nodau cyflogaeth unigol. Bydd cynghorydd PaCE yn trafod y dewisiadau gyda'r rhiant, gan gynnwys datrysiadau er mwyn goresgyn costau

gofal plant er mwyn galluogi'r rhieni i hyfforddi, gwirfoddoli neu fanteisio ar brofiad gwaith er mwyn gwella'u rhagolygon o sicrhau swydd. Gall gynnig cymorth un i un mewn lleoliadau addas i deuluoedd, gan gynorthwyo rhieni wrth iddynt chwilio am hyfforddiant a chyflogaeth.

Yr help y gallwn ei gynnig

- cyfrifiadau 'Mewn Sefyllfa Well' o fod yn gweithio
- cynnig cyngor ac arweiniad cyflogaeth, gan gynnwys hunangyflogaeth
- nodi dewisiadau gofal plant
- ariannu gofal plant
- nodi gofynion hyfforddiant
- sicrhau bod rhieni yn agosach i'r gweithle.

Y sawl yr ydym yn eu helpu

Helpodd PaCE un o breswylwyr WWH sy'n fam ifanc, Rachel Driscoll, trwy gynnig cyllid gofal plant iddi er mwyn ei galluogi i ddychwelyd i'r coleg i astudio Diploma Lefel 3 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant. Dywedodd: "Mae cael ail gyfle mewn bywyd i wneud yr hyn yr oeddwn yn dymuno ei wneud yn wreiddiol ar ôl gadael yr ysgol yn meddwl y byd i mi."

- Rhieni 25 oed a hŷn, nad ydynt mewn cyflogaeth
- Rhieni ifanc (16-24 oed) nad ydynt mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant (NEET)

Manylion cyswllt

E-bost PaCE@wales.gsi.gov.uk.



THE POPPY FACTORY

getting you back to work

Pwy ydym ni

Helpu cyn-filwyr sydd â chyflyrau iechyd meddwl a chorfforol i sicrhau gwaith er 1922.

Yr hyn a wnawn

Rydym yn cynnal gwasanaeth cyflogaeth cymunedol, Getting You Back to Work, sydd wedi cynorthwyo dros 1000 o gyn-filwyr a anafwyd neu sy'n dioddef salwch i sicrhau cyflogaeth ystyrlon a pharhaus ar draws y DU ers ei lansio yn 2010. Mae'r elusen yn cydweithio'n agos gyda Gwasanaeth GIG Cymru i Gyn-filwyr, Llywodraeth Cymru a'r holl elusennau milwrol eraill er mwyn cynorthwyo cyn-filwyr a'u teuluoedd.

Yr help y gallwn ei gynnig

Gall cyn-filwyr gofrestru i gael

cymorth ddwy flynedd ar ôl iddynt adael y Lluedd Arfog. Bydd pob cyn-filwr yn cydweithio'n agos gydag ymgynghorydd cyflogaeth profiadol, a fydd yn eu helpu i feithrin hyder a darganfod y rôl a'r cyfleoedd hyfforddi cywir sy'n addas i gryfderau ac uchelgais pob unigolyn. Pan fydd cyn-filwyr yn cychwyn yn eu swydd newydd, rydym yn cynnig 12 mis o gymorth yn y gwaith hefyd i'r unigolyn ac i'w cyflogwr.

Y sawl yr ydym yn eu helpu

Llwyddodd Wayne, cyn-filwr ym Myddin Prydain, i sicrhau swydd fel garddwr gyda Chomisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad, diolch i gymorth The Poppy Factory. Dywedodd: "Rydw i'n hapus iawn ac rydw i wrth fy modd yn mynd i'r gwaith. Rydw i'n dwli mynd gartref a rhannu fy niwrnod gyda fy nheulu. Mae'r holl ddiolch i The Poppy Factory."

Manylion cyswllt

Trowch at poppyfactory.org/ neu ffoniwch 020 8939 1837 i gael gwybod mwy.





Gweithredu ynghylch troseddu

Ein nod yw'ch cynorthwyo chi i ddatrys unrhyw broblemau yr ydych yn eu cael gyda'ch cymydog mewn ffordd anffurfiol, a chyn gynted ag y bo modd, er mwyn ceisio atal sefyllfaedd rhag gwaethgu.

Yn anffodus, ni fydd dewis arall i ni weithiau ond gwneud cais i'r llysoedd i ddatrys problemau yn ein cymunedau.

Rydym wedi cael saith achos yn y llys yn ddiweddar, yr oeddent yn ymwneud â phroblemau cyffuriau yn bennaf, ac o ganlyniad, rydym yn gobeithio helpu i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad troseddol yn ein cymunedau.



Yr hyn i'w wneud os bydd dŵr yn gollwng

Ar yr adeg hon o'r flwyddyn, bydd dŵr yn gollwng a phibellau yn byrstio yn achosi problemau o gwmpas y cartref.


Os oes dŵr yn gollwng neu os bydd pibell wedi byrstio, dylech chi **ffonio ein llinell ffôn 24 awr 0800 052 2526 yn syth.**

Wrth i chi aros am blymwr brys i alw, dyma rai camau y gallwch eu cymryd i leihau'r difrod i'ch cartref.

1 A ydych chi'n gallu diffodd y cyflenwad dŵr i'r rhan sy'n cael ei heffeithio? Bydd gwneud hyn yn gyflym yn helpu i atal difrod pellach i'ch cartref a'ch eitemau personol ac i eiddo cymydogion. Os ydych yn byw mewn fflat, mae hyn yn hanfodol er mwyn atal dŵr rhag difrodi eiddo cyfagos.

2 I ddiffodd y dŵr, mae stopfalf dan eich sinc neu mewn cwpwrdd dan y grisiau fel

Byddwn i wedi hoffi gweld WWH yn gweithredu yn fwy



Rydw i'n hoffi pan fydd rhywun yn gwrando arnaf



Cawsom nifer uchaf y cwynion am y materion canlynol:

1. Sŵn
2. Aflonyddu ac ymddygiad ymosodol
3. Cam-drin domestig



Trwsio y tro cyntaf

Dyma'r adeg brysaraf o'r flwyddyn ar gyfer gwaith trwsio, ond rydym wedi llwyddo i barhau i ddarparu gwasanaeth gwyh.

Gall preswylwyr gysylltu â'n tîm trwsio yn hawdd, a gwneir gwaith trwsio yn gyflym a'i gwblhau yn ystod un ymweliad fel arfer.

Mae'n gwefan newydd yn cynnwys adran sy'n cynnig cyngor defnyddiol ynghylch sut i wneud mân waith trwsio eich hun. Trowch at wwha.co.uk a chliciwch ar adran cysylltu â ni.

Gellir adrodd am waith trwsio trwy ein gwefan newydd neu ffonio 0800 052 25 26.




arfer. Ar gyfer toiledau neu sincipiau mewn ystafelloedd ymolchi, ceir falf ynysu (sy'n edrych fel sgriv rhych) y gellir ei throï i ffwrdd gan ddefnyddio sgridreifer.

3 Os yw'r dŵr gerllaw unrhyw socedi neu switshys trydanol, diffoddwch y trydan wrth yr uned defnyddiwr.

4 Diffoddwch y system gwres canolog neu'r twymwr tanddwr.

5 Agorwch pob tap er mwyn draenio'r dŵr o'r system.

6 Os nad ydych yn gallu troi'r dŵr i ffwrdd, rhowch dywel neu flwch dan y man lle y mae'r dŵr yn gollwng er mwyn casglu'r dŵr. Sicrhewch eich bod yn gwagio'r blwch cyn iddo lenwi gormod a gorlifo.



Cwblhawyd
8,540
o dasgau trwsio



Llwyddwyd i
drwsio
70%
y tro cyntaf



Llwyddwyd
i gwblhau
60%
mewn llai na
5 diwrnod



*Roedd y gweithwyr
yn gyfeillgar ac yn
broffesiynol*

Dywedoch chi:

*Byddai cyfathrebu
gwell am
apwyntiadau wedi
bod yn dda.*

Dywedoch chi:



CAERDYDD

Mae preswylwyr cynllun ymddeol Cwrt Western yng Nghaerdydd yn mwynhau blodau cyntaf y gwanwyn yn eu gerddi cymunol. Ymunodd staff WWH â nhw am ddiwrnod o blannu.



GLANHAU I WNEUD GWAHANIAETH

Treuliodd preswylwyr ifanc eu gwyliau hanner tymor yn glanhau'r strydoedd gerllaw eu cartrefi.

Roedd tua 12 o blant a rhieni o Ffordd Williamson, St Ederyn yng Nghaerdydd wedi cymryd rhan er mwyn gwella eu cymuned, dysgu am yr amgylchedd a gwneud gwahaniaeth i'r cynllun.

Dywedodd Jade Cummins, preswyllydd: "Roedd hi'n wych gweld plant o'r gymuned leol yn dod ynghyd i wella'r cynllun, a mawr obeithiwn wneud mwy o weithgareddau a threfnu sesiynau casglu sbwriel yn y dyfodol."



CEFNOGI BANCIAU BWYD LLEOL



Roedd teuluoedd mewn angen ar draws Cymru wedi cael ychydig help i ddatlu'r Nadolig, diolch i gymorth preswylwyr a staff.

Trefnom gasgliadau bwyd yn ein prif swyddfeydd ac mewn cynlluniau. Dosbarthom bedwar blwch o fwyd i Fanc Bwyd Llandysul er mwyn creu hamperi ar gyfer y rhai yr oeddent mewn



angen.

Casglodd preswylwyr yng nghynlluniau ymddeol Cwrt Constantine, Llys Ben Bowen Thomas a Thŷ Ddewi yn y Rhondda bron i 200 cilogram o fwyd ar gyfer Bwnc Bwyd Y Rhondda. Yn ogystal, dosbarthwyd troliau o fwyd i Fanc Bwyd Caerdydd.

DANGOSIAD CYNTAF I GYNHYRCHWYR FFLMIAU IFANC MERTHYR



Gallai pobl ifanc yn Nhwyncarmel fod sicrhau llwyddiant ar YouTube yn y dyfodol, diolch i brosiect sy'n eu haddysgu sut i gynhyrchu fideos a chlipiau ffilm proffesiynol.

Ariannodd WWH brosiect a fu'n gweithio gyda gweithwyr ieuencid o Grŵp Sefydliad Gellideg er mwyn dangos i'r bobl ifanc ar yr ystad sut i gynhyrchu fideos proffesiynol.

Bu pobl ifanc 8 i 14 oed yn

mynychu'r gweithdai lle y buont yn dysgu am gynllunio, byrddau stori, goleuo, sain, cyfarwyddo, golygu, gwisgo setiau a sgiliau eraill sy'n angenrheidiol er mwyn cynhyrchu fideo proffesiynol yr olwg.

Ar ddiwedd y prosiect, cynhaliwyd gŵyl fach ac estynnwyd gwahoddiad i'w rhieni, eu teuluoedd ac i westeion eraill er mwyn iddynt arddangos eu gwaith terfynol.

Dywedodd Ali Chaplin, Swyddog Datblygu Cymunedol: "Bu'n llwyddiant mawr a mawr obeithiwn y bydd hyn yn annog rhai o'r bobl ifanc i ddilyn gyrfa ym myd cynhyrchu ffilmiau a fideos."

ABERTEIFI



Cyflwynwyd £310 i Gymorth Cancer Macmillan gan breswylwyr o'r cynllun ymddeol yn Aberteifi, Llys Owen, sef elw bore coffi a gynhaliwyd ac a gefnogwyd gan fusnesau lleol.

Y DRENEWYDD

AWDUR AM Y TRO CYNTAF
YN 94 OED

Arweiniodd anrheg Nadolig annisgwyl at un o breswylwyr y Drenewydd, Phyllis Davies, yn dod yn awdures gyhoeddedig.

Roedd Mrs Davies, 94 oed, o Gae Camlas yn y Drenewydd wastad yn adrodd straeon i'w phlant a'i hwyrion a'i hwyresau am ei bywyd a'r teithiau y bu arnynt, felly awgrymont y dylai hi gofnodi'r rhain ar bapur er mwyn i'w hwyrion a'i hwyresau allu eu mwynhau yn y dyfodol. Roedd ei golwg yn wael, ac roedd hyn yn golygu na allai wneud hynny, nes iddi gael peiriant recordio llais fel anrheg Nadolig, a bu'n recordio ei hanes o gael ei magu yn Wrecsam a'i theithiau fel aelod o'r gwasanaethau arfog cyn setlo yn Y Drenewydd ym 1976 fel gwraig offeiriad.

Cyhoeddwyd ei hunangofiant,

'My Life Remembered', ym mis Tachwedd 2018 a gwerthwyd dros 200 o gopiau ohono yn barod er mwyn codi arian ar gyfer Eglwys All Saints ac elusen Blind Veterans UK.

Dywedodd Mrs Davies: "Rydw i'n teimlo'n ffodus gan bod yr Arglwydd wedi darparu popeth yr oedd ei angen arnaf. Mae gennyf gartref da a theulu hyfryd sy'n gefnogol ac sy'n cynnig cymorth i mi."

Dylai unrhyw un sydd â diddordeb mewn cael copi, yn gyfnewid am gyfraniad i elusen, gysylltu â Rhian Marsh, Swyddog Tai, ar 07539118684.

Dywedodd Rhian: "Mae Mrs Davies wedi mwynhau nifer fawr o gyfnodau hapus ac mae hi wedi dioddef rhai colledion ofnadwy yn ystod ei hoes, ond mae ei stori yn ysbrydoliaeth i bawb."

YMWELYDD ANNISGWYL



Synnwyd preswylwyr yng Nghwrt Clarendon, Cyncoed, Caerdydd, un diwrnod wrth iddynt roi eu biniau allan.

Roedd neidr yd oren lachar, pedair troedfedd o hyd yn eistedd ar y bin.

Cysylltwyd ag RSPCA Cymru, a ddaeth allan i gasglu'r neidr a threfnu gofal arbenigol ar ei chyfer, cyn lansio apêl i ddod i hyd i'w pherchennog, gan eu bod yn credu ei bod wedi dianc o eiddo cyfagos.

TAI CHI UNRHYW UN?



Mae'r preswylwyr yng Nghwrt Limebourne, Caerdydd wedi bod yn mwynhau cyfres o weithgareddau, diolch i'w cymdogion, Pat Rogers, Sheila Small, Rob a Lyn Henly. Maent wedi trefnu noson gemau wythnosol bob nos Wener, sy'n boblogaidd iawn ymhlith nifer o

breswylwyr sy'n dod ynghyd i chwarae gemau cardiau, gemau bwrdd a darts. Mae'r sesiynau Tai Chi wedi bod yn boblogaidd iawn ymhlith preswylwyr o bob gallu hefyd. Dywedodd Sarah Willcox, Swyddog Datblygu Cymunedol:

"Roedd rhai

preswylwyr wedi bod yn teimlo'n ynysig, ond ar ôl i breswylwyr brwdfrydig ymuno, mae'r lolfa yn ferw o brysurdeb nawr unwaith eto, ac mae pawb yn mwynhau mentro allan o'u fflatiau i fwynhau cwmni hyfryd cymdogion ar eu stepen drws."

NYTHOD



PARATOI: 25 MUNUD COGINIO: 5 MUNUD

Mae'r danteithion hawdd hyn yn ffordd wych o gael y plant i helpu yn y gegin.

Cynhwysion: (Bydd yn gwneud 12 nyth)

- 100g o falws melys bach
- 50g o fenyn
- 180g o nwdls chow mein, wedi'u torri'n ddarnau 2.5cm
- Tin myffins sy'n dal 12
- 12 casyn papur myffins
- Wyau bach siocled neu losin jeli i llenwi'r nythod

Dull:

1. Rhowch y casys papur yn y tin myffins.
2. Toddwch y malws melys a'r menynt mewn sosban dros wres canolig. Trowch y gymysgedd nes bydd y menynt a'r malws melys wedi toddi.
3. Ychwanegwch y nwdls i'r gymysgedd a'u gorchuddio'n dda.
4. Rhowch ychydig fenyn neu olew ar eich bysedd a gwasgwch y gymysgedd i mewn i'r casys papur yn y tin myffins, gan greu twll yn y canol ar gyfer eich wyau.
5. Rhowch y rhain yn yr oergell nes byddant yn caledu, yna ewch ati i'w llenwi gydag wyau bach siocled neu losin jeli.

Creu Dysglau Plannu o Esgidiau Glaw

Gall y gweithgarwch syml hwn drawsnewid unrhyw ardd blaen yn lle hyfryd i'r teulu cyfan ei fwynhau.

Bydd angen y canlynol arnoch:

- Hen bâr o esgidiau glaw – gorau fo fwyaf lliwgar ydynt!
- Sebon gwlyb, dŵr a sbwng neu frws sgwrio
- Dril
- Cerrig a cherrig mân
- Compost
- Hadau neu blanhigion i'w plannu



1. Paratoi

Ewch ati i lanhau'r esgidiau glaw gan ddefnyddio dŵr sebon. Sgwriwch unrhyw faw oddi ar y rhychau yn y sodlau er mwyn ei gwneud yn haws gwneud tyllau ynddynt yn nes ymlaen. Sychwch yr esgidiau'n dda a phenderfynwch a ydych chi'n dymuno eu paentio neu eu gadael fel ag y maent yn eu lliw gwreiddiol.

2. Draenio

Clampiwch droed yr esgidiau yn dynn ar fainc gweithio, gyda'r sawdl yn wynebu i fyny. Defnyddiwch ddril llaw yn ofalus er mwyn creu rhai tyllau yn y sawdl er mwyn caniatáu i'r dŵr ddiferu allan ohonynt. NID yw hwn yn rhywbeth y dylid caniatáu i'r plant ei wneud! Ceisiwch ddrilio rhwng y rhychau yn y sawdl, lle y mae'r rwber yn deneuach ac yn haws i'w dyllu.

3. Cerrig

Llenwch droed yr esgidiau gyda cherrig neu gerrig mân er mwyn gwella'r draenio pan fyddwch yn rhoi dŵr i'ch planhigion.

4. Pridd

Llanwch weddill yr esgidiau glaw gyda chompost a'ch hoff blanhigion. Dyma'r rhan y mae'n hawdd i blant gymryd rhan ynddi a'i mwynhau. Gair o rybudd – gyda dwylo bach yn cynnig cymorth, efallai y bydd ychydig annibendod!

5. Plannu

Defnyddiwch liwiau cyferbyniol neu ewch ati i gydlynu'r blodau a'r patrwm ar yr esgidiau glaw. Mae hon yn adeg wych i gynnwys y plant oherwydd y gallant ddewis y blodau a'u plannu, ac ymrwymo i'r cyfrifoldeb dros roi dŵr iddynt yn ystod y flwyddyn.

Bodlonrwydd a Chwynion

DATRYS CWYNIION

13.5

Ar gyfartaledd, roedd wedi cymryd 13.5 diwrnod gwaith i

ddatrys cwynion rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr y llynedd.

BODLONRWYDD

8.3

Ar draws ein gwasanaethau, llwyddom i sicrhau sgôr o 8.3 allan o 10 am fodlonrwydd.

Mae hyn yn cynnwys gosod, trwsio, cartrefi newydd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gwelwyd y cynnydd mwyaf yn y lefel fodlonrwydd gydag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, sef 6.3 allan o 10.

CWYNIION

2

Rydym wedi gweld gostyngiad o 80 y cant yn nifer y cwynion a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd

y cwynion am ein gwasanaeth trwsio wedi parhau i ostwng, a chofnodwyd dim ond 1 gŵyn yn unig rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr, o'u cymharu â 6 yn ystod y flwyddyn flaenorol. Yn gyffredinol, dim ond 2 gŵyn a gawsom.

Yr amser tawelaf i'n llinellau ffôn yw ar ôl cinio fel arfer

10am

oedd yr amser prysuraf o ran galwadau yn ystod y chwarter diwethaf



A wyddoch chi y gallwch chi gael cyngor ynghylch trwsio ac adrodd am waith trwsio y mae angen ei wneud ar ein gwefan?


Cawsom

32,316

ac roedd bron i

48


y cant o'r rheini yn alwadau ynghylch gwaith trwsio.



Roedd hi wedi cymryd

17 eiliad


ar gyfartaledd i ateb galwadau ynghylch gwaith trwsio



www.wwha.co.uk/repair

PUNT I GEINIOGAU

Lle y caiff pob  ei gwario



TUDALENNAU POSAU

Enillwch gwerth **£30** o dalebau siopa gyda'n posau Chwilair a Chroesair.

CHWILAIR ARWYDDION Y GWANWYN

Mae'r rhifyn hwn o Chwilair i gyd yn ymwneud a'r Gwanwyn.

Gellir canfod yr holl eiriau tuag yn ôl, ymlaen, yn llorweddol, yn ferigol neu'n groeslinol.

GWOBR

R	A	C	R	M	G	P	C	N	E	W	L	U	E	H
L	D	O	Y	O	B	Y	I	B	B	L	A	G	U	R
B	E	E	L	W	M	Y	A	L	F	C	S	L	D	E
D	R	E	B	Y	I	R	F	A	I	Y	W	P	W	C
U	W	C	L	N	C	O	H	J	H	P	G	W	A	A
A	A	A	G	U	E	O	N	S	W	G	A	A	H	U
C	U	Y	D	M	S	N	T	Y	A	R	R	L	I	S
R	I	P	W	E	L	P	I	J	L	R	A	K	A	E
O	D	L	O	F	S	E	C	H	G	M	B	B	O	H
C	H	R	T	Y	F	U	R	F	N	A	S	L	A	N
W	C	T	I	W	L	I	P	A	U	E	A	O	C	Y
S	D	H	I	C	S	N	O	F	B	P	C	D	E	C
S	Y	F	N	E	T	W	I	E	U	M	O	E	S	N
R	S	M	J	R	U	T	A	B	W	O	Y	U	R	M
P	W	P	O	E	A	D	N	C	J	W	C	O	E	R

- ASBARAGWS
- AWELOG
- BARCUD
- BLAGUR
- BLODEUO
- CENHINEN BEDR
- CROCWS
- CROESO HAF
- CYMYLAU
- CYNHESU
- CYWION
- DEOR
- ENFYS
- GLAW
- HEULWEN
- OEN
- PILIPALA
- TIWLIPAU
- TYFU
- WYAU
- YMBAREL

CROESAIR

									1					
		2	3											
	4				5					6				
7												8		
										9				
					10		11							

AR DRAWS

2. Daw cawodydd mis Ebrill â _____ mis Mai (6)
5. Gwisgwch hwn ar eich pen i bicnics a pharêdau
7. Lle i dyfu llyisiau (5)
9. Tyfu ar goed a phlanhigion (4)
12. Dod allan o wy (5)

I LAWR

1. Cyfnod byr o law (5)
3. Troi mewn i pili-pala (8)
4. Yn gweithio orau ar ddiwrnod gwyntog (6)
6. I newid o rhew i hylif (8)
8. Gwisgwch hwn i gadw'n dwym (6)
10. Troi'n hylif (5)
11. Beth yw'r blodyn cyntaf o'r gwanwyn (6)

GWOBR

POS SWDOCW

			3	8	1			
	6	3		7			4	5
9		2					7	
8	2	1	7					6
		4	1		3	2		
7					2	5	9	1
	4					9		2
6	7			2		3	1	
			5	3	4			

ENILLWYR POS Y GAFAF

Longyfarchiadau i enillwyr ein pos Nadolig, sef Ruth Cook, Cwrt Four Elms, Y Rhath, Caerdydd (croesair) a Wendy Salt, Derwen Deg, Coed-llai, Yr Wyddgrug (chwilair).

ENNILL

I fod â chyfle i ennill taleb siopa gwerth £30 am ein pos chwila'r neu groesair, anfonwch eich cynnig ynghyd â'ch enw, cyfeiriad a manylion cysylltu at Alison Stokes, Tai Wales & West, Tŷ'r Bwa, 77 Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd CF14 5DU.

Rhoddir yr holl gynigion cywir yn y gystadleuaeth tynnu enwau ac fe ddewisir un enillydd ffodus ar gyfer pob pos, ac fe fydd yn derbyn taleb siopa gwerth £30. Y dyddiad cau er mwyn cystadlu yw 31 Mai 2019.

Beth sy'n digwydd

De Cymru

Tan Mai 6 - Leonardo da Vinci: A Life in Drawing

Er mwyn cofio 500 mlynedd ers marwolaeth Leonardo da Vinci, arddangosir deuddeg o'i ddarluniau gorau o'r Casgliad Brenhinol. Mynediad am ddim. www.museum.wales/cardiff/whatson/10265/Leonardo-da-Vinci-A-Life-in-Drawing/

12 Mai – Gŵyl Fwyd Caerffili, canol tref Caerffili

Stondinau jam, siytni a chacennau cartref ar hyd y dref, yn ogystal â chyffug, smwddis a chrempogau blasus. Mae'n siŵr y bydd ymwelwyr yn cael eu temtio i'w blasu.

26 Mai tan 1 Mehefin – Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Bae Caerdydd

Un o wyliau ieuencid teithiol mwyaf Ewrop. Atyniadau i'r teulu cyfan, o gystadlaethau i'r cyfle i ymweld â'r stondinau a'r arddangosiadau amrywiol ar y safle. Mynediad am ddim. <https://www.urdd.cymru/en/eisteddfod/eisteddfod-2019/tickets/>

Gogledd Cymru

18 Mai – Gŵyl Bwyd, Diod a Chreffft Rhuddlan, Canol Tref Rhuddlan, LL18 5AW

Bydd dros 40 o arddangoswyr yn cynnig popeth o siocled a chaws i gig, cwrw a hufen iâ i'w flasau a'i brynu. Bydd mwyafrif yr arddangoswyr yn fusnesau Cymreig lleol, 10am-4pm, £1 i gael mynediad; plant am ddim

16 Mehefin – Diwrnod Agored Hen Gastell Penarlâg, Siop Fferm Ystad Penarlâg, Heol Caer, Penarlâg, Sir y Fflint, CH5 3FB

Cyfle i archwilio'r adeilad hanesyddol hwn yn Sir y Fflint a mwynhau golygfeydd godidog, 2pm-5pm; £3 i oedolion, hyd at ddau o blant am ddim; codir £3

ar blant ychwanegol. Ffôn: 01244 553442

Canolbarth Cymru

3-6 Mai – Gŵyl Gerdded Talgarth, Lleoliadau amrywiol
Archwiliwch y Mynydd Du ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gyda chyfres o deithiau tywys. Bydd yn costio o £3. info@talgarthwalkingfestival.org; 07943 616453

Gorllewin Cymru

27 Ebrill – Dydd Sadwrn Barlys Aberteifi ac o gwmpas Aberteifi
Mae'r digwyddiad unigryw hwn yn dyddio'n ôl i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ac mae'n cynnwys cystadlaethau ceffylau, a ddilynir gan orymdaith o geffylau, hen geir, beiciau modur, tractorau, cerbydau, ceir llaeth a wageni sipsiwn. Bydd yn cychwyn am 2pm.

18-27 Mai – Gŵyl Feicio Abercylefest Aberystwyth,
Dathliad o feicio yng Nghanolbarth Cymru, gan gynnwys rasys o gwmpas canol y dref, beicio mynydd i lawr rhiw a thaith feicio y gall unrhyw un gymryd rhan ynddi – Sportif Gorllewin Gwyllt Cymru, sy'n cynnwys yr holl ffyrdd gorau yng Ngheredigion.

22 – 30 Mehefin – Wythnos Bysgod Sir Benfro

Bydd dros 150 o fusnesau yn cymryd rhan, gan fwynhau'r awyr agored ar deithiau pysgota ac mewn cychod, barbeciwiau yn yr awyr agored, saffariau glan môr a llawer iawn o adloniant y bydd y teulu cyfan yn ei fwynhau!

29 - 30 Mehefin – Sioe Hen Bethau Flynyddol Clwb Hen Bethau Dyffryn Tywi, Maes Sioe Pontarogthi, Pontarogthi

Penwythnos llawn hwyl i'r teulu cyfan, arwerthiant cist car, stondinau masnachol, arwerthiant eitemau modurol a sioe cŵn. A hefyd, arddangosiadau ceir, beiciau modur, sgwteri, cerbydau masnachol, motorau sefydlog, injans stêm bach, tractorau a mwy.

Garddio Â GLENYS



Mae Glenys Vandervolk yn arddwraig sydd wedi ennill gwobrau ac mae'n byw yn ein cynllun Llaneirwg yng Nghaerdydd. Mae'n un o'r sêr yng Ngardd Gymunedol Llaneirwg. Yn ei cholofn reolaidd, fe fydd yn rhannu'i hawgrymiadau a'i chynghorion i wneud i'ch gardd dyfu.

GARDDWYR YN RHOI CYNNIG AR DYFU CNAU

Gwanwyn yw fy hoff amser o'r flwyddyn, wrth i ni ddechrau plannu hadau yn barod ar gyfer cynnyrch yr haf a'r hydref.

Eleni, rydym yn teimlo'n hynod o gyffrous yng ngardd Gymunedol Llaneirwg oherwydd y byddwn yn tyfu pysgnau am y tro cyntaf. Yn wahanol i'r gred gyffredin, nid cneuen yw'r pysgneuen; llysieuyn ydyw mewn gwirionedd, sy'n perthyn i'r un teulu â phys a ffa ac sy'n tyfu yn y ddaear mewn ffordd debyg i blanhigyn tatws.

Ar ôl y tywydd rhew, gallwch ddechrau plannu eich pysgnau wedi eu disbeinio mewn dysglau neu yn yr ardd, a'u plannu tua

modfedd yn y pridd, yn y man mwyaf heulog.

Bydd y cnwd yn barod i'w gynaeafu pan fydd y dail yn troi'n felyn a phan fydd y blodau oren yn nychu. Gallwch eu tynnu neu eu palu fel tatws. Byddant yn cymryd tua pedwar mis i dyfu, felly os byddwch yn eu plannu ym mis Ebrill, dylent fod yn barod ym mis Gorffennaf. Pob hwyl gyda'r cynaeafu.

Rydym yn rhoi cynnig ar ddull newydd er mwyn tyfu tomatos hefyd, y mae un o'n haelodau eisoes wedi rhoi cynnig arno. Yn hytrach na phlannu hadau tomato bach, gallwch sleisio tomato

a phlannu'r sleisys hyn mewn dysglau.

Yn yr un modd ag y byddwch yn ei wneud pan fyddwch yn defnyddio hadau, dylech lenwi'r dysglau gyda phridd nes byddant yn dri chwarter llawn, gosod y sleisys tomato ar y pridd, yna eu gorchuddio gyda phridd. Gadewch y potiau mewn man cynnes fel tŷ gwydr neu ar sil ffenestr a rhowch ddŵr iddynt yn rheolaidd. Mae'r dull hwn yn un gwych er mwyn i bobl y mae eu golwg yn wael neu y maent yn ei chael hi'n anodd trin a thrafod hadau bach iawn gymryd rhan mewn gweithgarwch garddio.



Garddwyr gwirfoddol yn paratoi pysgnau



Gellir plannu sleisys tomato yn lle hadau

Diwrnod ym mywyd ...

Swyddog Tai



Mae Claire Jones yn Swyddog Tai ac mae wedi bod yn gweithio i Dai Wales & West ers 20 mlynedd, ac yn ystod y cyfnod hwnnw, mae hi wedi helpu miloedd o deuluoedd a phobl sengl i setlo mewn man y gallant ei alw yn gartref.

Teuluoedd ifanc, cyplau oeddrannus, y rhai sydd wedi cael ysgariad, pobl sengl, y rhai sydd wedi dioddef profedigaeth yn ddiweddar... bydd Claire yn ceisio helpu pob un ohonynt.

Fel Swyddog Tai, ei gwaith hi yw sicrhau bod preswylwyr sy'n byw yn ei hardal hi yn ddiogel ac yn hapus a'u bod yn gallu gofalu am eu cartrefi a thalu eu rhent.

Mae hi'n rheoli tua 400 o gartrefi, fflatiau yn bennaf gerllaw canol dinas Caerdydd ac i'r gorllewin o ganol y ddinas, lle y mae hi'n nodi bod ei bywyd gwaith yn gallu bod "fel boc o siocledi". Nid ydw i fyth yn gwybod beth fydd yn codi nesaf. Nid oes diwrnod nodweddiadol, ond cefnogi preswylwyr yw fy mlaenoriaeth bennaf, ac mae hyn yn

rhywbeth sy'n digwydd bob dydd."

Mae cyfathrebu gyda phreswylwyr yn rhan bwysig o lwyth gwaith dyddiol Claire, boed hynny wyneb yn wyneb neu dros y ffôn. Ei gwaith hi yw sicrhau ei bod yn ymwybodol o'r newidiadau

“Rydw i wrth fy modd yn gweithio ym maes tai. Mae gwybod y gallaf i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl a'u helpu i gyflawni'r 'hyn sy'n bwysig iddynt' yn fy ngwneud yn hapus.”

diweddaraf sy'n effeithio ar ei phreswylwyr hefyd, megis y Credyd Cynhwysol, gan ystyried ffyrdd o wella gwasanaethau.

"Mae diwygio lles wedi bod yn cael effaith anferth ar fy ngwaith yn ddiweddar, gan bod preswylwyr sy'n gadael budd-daliadau etifeddol yn cael amser anodd. Yn hanesyddol, byddai rhent y preswylwyr hynny wedi cael ei dalu'n uniongyrchol trwy'r Budd-dal Tai, ond bellach,

gan eu bod yn cael eu 'Budd-dal Cost Tai' yn uniongyrchol, rhaid i mi sicrhau bod ganddynt y wybodaeth gywir i ddelio â'r newidiadau hyn fel y gallant dalu eu rhent. Gall hyn gynnwys rhoi cyngor ynghylch cyllidebu a rhoi cymorth er mwyn eu galluogi i ddechre i addysg neu waith."

Yn ddiweddar, mae Claire wedi bod yn gweithio gyda Byddin yr Iachawdwriaeth ar eu prosiect Tai yn Gyntaf yng Nghaerdydd, sy'n ceisio helpu pobl digartref sy'n byw ar y stryd i sicrhau cartref parhaol. Mae hi wedi llwyddo i helpu unigolion i setlo yn eu cartrefi newydd yn y ddinas.

Dywedodd Claire: "Mae mwyafrif y preswylwyr sy'n byw yn fy ardal i yn mynd i'r gwaith, maent yn dod gartref i'w teuluoedd ac yn byw eu bywydau, ac nid oes angen unrhyw help arnynt. Efallai bod angen mwy o gymorth ar eraill. Beth bynnag fo'r amgylchiadau, rydw i'n barod pan fydd angen i mi fynd "yr ail filltir" iddynt.

"Ni fyddaf yn addo 'datrys' eu holl broblemau, ond byddaf yn gwneud yr hyn y gallaf ei wneud i helpu a byddaf yn realistig am yr hyn y maent yn gofyn amdano. Rydw i'n gweithio gyda thîm o gydweithwyr gwych hefyd, a gwn y gallaf droi atynt unrhyw bryd i ofyn am help gydag unrhyw bryderon neu broblemau y bydd angen help neu gymorth arnaf gyda nhw.

"Rydw i wrth fy modd yn gweithio ym maes tai. Mae gwybod y gallaf i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl a'u helpu i gyflawni'r 'hyn sy'n bwysig iddynt' yn fy ngwneud yn hapus."

Bellach, trosglwyddwyd pedwar cartref newydd yn natblygiad tai poblogaidd Rheithordy yng Ngwenfô, Bro Morgannwg i berchnogaeth Tai Wales & West.

Symudodd tri theulu lleol i'r eiddo rhent ddechrau fis Ebrill. Gwerthir y pedwerydd tŷ fel rhan o'n cynllun Perchentyaeth Cost Isel i brynwyr tai cyntaf yn yr ardal am 70% o'u gwerth ar y farchnad. Adeiladwyd y cartrefi gan gartrefi Redrow fel rhan o'u datblygiad mwy yn yr ardal.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn Perchentyaeth Cost Isel, ffoniwch Bethan Christofides ar 029 2041 4092